

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol
â Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnwys Steve Ashcroft, Nigel Blewitt,
Matthew Brushett, Jeremy Morgan a Seth Newman o dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG.

Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Crynodeb	6
Argymhellion	13
Roedd gwendidau yn natblygiad y cynllun busnes ar gyfer GCC, gan gynnwys modelu'r gofynion staffio ynghyd â sgôp tebygol a dylanwad GCC	15
Dengys ffigurau dangosol fod cyrff cyhoeddus wedi gwario £234 miliwn drwy GCC yn 2016-17, £222 miliwn ohono wedi'i wario gan aelodau GCC	20
Ym Mehefin 2017, roedd gan GCC 57 o fframweithiau byw er mai prin y defnyddiwyd rhai ohonynt er iddynt fod yn fyw ers cryn amser.	23
Nid yw'r system i optio allan o fframweithiau GCC yn gweithio ac mae aelodau GCC yn defnyddio cytundebau consortia neu gyrff prynu cyhoeddus eraill sy'n darparu mwy neu lai'r un fath o nwyddau, gwasanaethau a gwaith	28
Mae defnydd llai na'r disgwyl o'r fframweithiau wedi cael effaith sylweddol ar incwm GCC gan olygu nad yw'n hunan-gynhaliol ac nad yw eto wedi gallu ad-dalu'r benthyciad buddsoddi-i-arbed a dderbyniodd gan Lywodraeth Cymru tuag at ei sefydlu.	35
Mae GCC wedi adrodd y bydd ei arbedion caffael ac ariannol yn creu manteision ehangach i economi Cymru ond mae'r ffigurau arbedion yn llai na'r disgwyl	38
Er bod y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn cefnogi GCC mewn egwyddor, dim ond traean o'r aelodau oedd yn fodlon â'r gwasanaeth ac roedd pryderon ynghylch pa mor gystadleuol oedd y fframweithiau, gwireddu'r manteision ehangach a gallu cwrdd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol	43
Mae rhai cyrff cyhoeddus yn poeni nad yw GCC yn ddigon annibynnol i Lywodraeth Cymru	47

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio	50
Atodiad 2 – Y defnydd o fframweithiau GCC yn 2015-16 a 2016-17	53

Crynodeb

- 1 Ym mis Tachwedd 2013 sefydlodd Llywodraeth Cymru'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) fel corff prynu cyhoeddus¹. Y prif amcan yw 'prynu unwaith i Gymru' ar ran y sector cyhoeddus mewn meysydd gwariant cyffredin ac ailadroddus a gwreiddio Datganiad Polisi Caffael Cymru² o fewn pob contract a fframwaith. Llywodraeth Cymru yw'r corff sy'n trefnu GCC.
- 2 Mae GCC yn un o'r tri phrif gonsortia caffael a chyrff prynu cyhoeddus yng Nghymru. Y lleill yw Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) a Chonsortium Prynu Addysg Uwch Cymru (HEPCW). Sefydlwyd GCC i weithio gyda'r consortia caffael a chyrff prynu cyhoeddus Cymreig eraill hyn, yn hytrach na chystadlu gyda nhw. Mae swyddogaethau Consortium Prynu Cymru³, a ddaeth i ben yn 2016, hefyd wedi eu trosglwyddo i GCC. Roedd GCC yn cyflogi 44 o staff (41 o swyddi cyfwerth ag amser llawn) ym mis Mehefin 2017.
- 3 Mae 73 o gyrff cyhoeddus wedi cofrestru fel aelodau o GCC ar draws gwahanol sectorau (**Ffigwr 1**). Gwahoddwyd cyrff cyhoeddus ar draws Cymru i gofrestru fel aelodau o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol am bum mlynedd. Yr hyn a gynigiwyd oedd y byddai GCC yn darparu fframweithiau a chontractau am nwyddau a gwasanaethau gwariant cyffredin ac ailadroddus yn gyfnewid am ymrwymiad gan y cyrff cyhoeddus i brynu drwy ei fframweithiau a'i gontractau (**Blwch 1**).

- 1 Mae corff prynu cyhoeddus yn darparu ystod eang o fframweithiau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau y gellir eu defnyddio ar draws y sector cyhoeddus ac i gefnogi caffael cydweithredol. Consortium prynu yw dau sefydliad annibynnol, neu fwy, sy'n dod at ei gilydd yn ffurfiol neu'n anffurfiol, neu drwy drydydd parti annibynnol, i gyfuno eu gofynion unigol i gaffael nwyddau a gwasanaethau.
- 2 Mae datganiad polisi caffael Llywodraeth Cymru'n gosod allan y prif egwyddorion ar gyfer caffael cyhoeddus, yng nghyd-destun deddfwriaeth gaffael berthnasol yr UE a'r DU. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r datganiad cyntaf yn 2012 a'i ddiweddarau yn 2015.
- 3 Roedd Consortium Prynu Cymru'n cynnwys 16 awdurdod lleol yng Ngorllewin, De a Chanolbarth Cymru i ddarparu trefniadau caffael cystadleuol, rhannu arferion gorau ac i ddatblygu a mabwysiadu cyfres o ddogfennau caffael safonol. Roedd pob awdurdod yn y Consortium yn trefnu fframweithiau neu gontractau ar ran pob un o'r 16 awdurdod lleol. Daeth Consortium Prynu Cymru i ben ar 31 Mawrth 2016.

Blwch 1 – Defnydd GCC o fframweithiau

Drwy ddefnyddio fframweithiau gall cyrff cyhoeddus brynu nwyddau a/neu wasanaethau gan gyflenwyr ar delerau contract, prisiau a lefelau gwasanaeth a gytunwyd ymlaen llaw ac a ddiffiniwyd i gwrdd ag anghenion y cyrff. Maent yn ffordd syml o brynu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau mwyaf priodol ac sy'n cynnig y gwerth gorau heb orfod cyflawni proses gaffael lawn yr UE. Gyda'r rhan fwyaf o fframweithiau, rhaid i gyrff cyhoeddus gynnal mini-gystadleuaeth (yn ôl y gofyn) rhwng y cyflenwyr ar y fframwaith.

Mae GCC wedi sefydlu systemau prynu deinamig, proses dendro electronig ar gyfer dewis cyflenwyr sy'n gallu ymuno â'r system dros amser os ydynt yn cwrdd â'r safonau gwasanaeth gofynnol. Mae GCC hefyd wedi sefydlu contractau yn ôl y galw ar gyfer ei aelodau.

- 4 Mae Bwrdd GCC yn goruchwyllo cyfeiriad strategol GCC (**Ffigwr 1**). Mae gan GCC hefyd Grŵp Cyflawni ar wahân sy'n gyfrifol am gadw llygad ar faterion gweithredol ac sy'n atebol i Fwrdd GCC. Ynghyd ag agweddau eraill ar drefniadau llywodraethu GCC, mae'r Grŵp Cyflawni a'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith yr holl sefydliadau sy'n aelodau o GCC⁴. Bwriad Llywodraeth Cymru yw uno Bwrdd GCC a'r Bwrdd Caffael Cenedlaethol i sicrhau nad yw'r ddau fwrdd yn gorgyffwrdd ac i leddfu unrhyw ddryswch posib ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau.

4 Mae GCC wedi pwysleisio i ni bod y lefel o gynnwys cwsmeriaid yn ei drefniadau llywodraethu'n wahanol i'r hyn sy'n digwydd mewn cyrff prynu cyhoeddus eraill yn y DU.

Ffigur 1: trefniadau llywodraethu GCC

Trefniadau llywodraethu GCC

Bwrdd GCC	Yn goruchwyllo cyfeiriad strategol GCC ac yn cynnwys ystod o gynrychiolwyr o wahanol sectorau.
Cyfarwyddwr GCC	Yn gyfrifol am staff a gweithrediadau GCC, yn atebol i Fwrdd GCC. Hefyd yn cyflawni'r rôl o Gyfarwyddwr Masnachol ar gyfer Llywodraeth Cymru.
Grŵp Cyflawni GCC	Yn goruchwyllo materion gweithredol – gan gynnwys cymeradwyo rhaglen waith a strategaethau caffael penodol GCC – ac yn atebol i Fwrdd GCC. Mae'r grŵp yn cynnwys, ac wedi'i gadeirio gan, gynrychiolwyr sector. Mae'r cynrychiolwyr sector yn cynnwys pum cynrychiolydd o lywodraeth leol ac un o sectorau eraill. Mae Cadeirydd y Grŵp Cyflawni'n eistedd ar Fwrdd GCC.
Fforymau Categorïau GCC	Yn gyfrifol am ddatblygu strategaethau caffael ar gyfer categorïau o nwyddau a gwasanaethau – gan gynnwys ymgynghori â'r sefydliadau sy'n aelodau – cyn eu cymeradwyo gan y Grŵp Cyflawni. Mae'r aelodaeth yn cynnwys staff caffael a thechnegol y cwsmeriaid.
Llywodraeth Cymru	Y corff sy'n trefnu'r gwasanaeth ac yn darparu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cymorth sydd eu hangen ar GCC.
Sefydliadau sy'n aelodau o GCC	Y 73 aelod yw: pob un o'r 22 awdurdod lleol, pob un o 10 corff y GIG yng Nghymru, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yr heddlu a'r gwasanaethau tân ac achub, a sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach.
Cwsmeriaid eraill GCC (nad ydynt yn aelodau)	Unrhyw gorff cyhoeddus neu gorff trydydd sector sy'n dymuno defnyddio fframweithiau a chontractau GCC ond yn ddi-ymrwymiad. Mae sefydliadau heb fod yn aelodau sy'n prynu drwy GCC wedi cynnwys ystod o gyrff cyhoeddus datganoledig, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru. Maen nhw hefyd wedi cynnwys rhai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, cyrff trydydd sector eraill a rhai asiantaethau llywodraeth heb eu datganoli.

Ffynhonnell: Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

- 5 Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio i weld a yw GCC yn helpu i roi gwerth am arian mewn gwariant cyhoeddus ac a yw'n barod at y dyfodol. Roedd ein harchwiliad o GCC yn rhan o adolygiad ehangach o gaffael cyhoeddus. Yng nghamau cynnar yr adolygiad ehangach hwnnw, lleisiodd rai cyrff cyhoeddus bryderon penodol am ddatblygiad a pherfformiad GCC. Adroddwn y canfyddiadau o'r adolygiad ehangach hwnnw mewn adroddiad ar wahân⁵. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried materion yn ymwneud â GCC yn fwy manwl. Mae **Atodiad 1** yn rhoi mwy o fanylion am ddulliau ein harchwiliad.
- 6 **Dengys y ffigurau dangosol fod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn 2016-17 wedi gwario £234 miliwn drwy fframweithiau a chontractau GCC, £222 miliwn ohono'n ymwneud â sefydliadau sy'n aelodau o'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw cyrff cyhoeddus yn defnyddio fframweithiau GCC cymaint â'r disgwyl gan arwain at bryderon ynghylch ei ariannu, arbedion llai na'r disgwyl – adroddwyd £14.8 miliwn yn 2016-17 – a llawer o'i aelodau'n anfodlon.** Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi trosolwg byr ar ein prif ganfyddiadau.
- 7 Roedd gwendidau gyda datblygu achos busnes GCC, oedd ddim yn cydymffurfio'n llwyr â gweithdrefnau arferol Llywodraeth Cymru. Roedd gwendidau sylweddol hefyd yn ei gynnwys, gan gynnwys modelu'r gofynion staffio ynghyd â sgôp tebygol a dylanwad GCC. Ers hynny mae GCC wedi edrych eto ar rai o'r rhagbybiaethau yn yr achos busnes.
- 8 Ar sail dadansoddiad o wariant 2010-11, roedd yr achos busnes gwreiddiol yn amcangyfrif y gallai GCC ddylanwadu ar £522 miliwn o wariant caffael cyhoeddus ar nwyddau, gwasanaethau a gwaith cyffredin ac ailadroddus penodol. Roedd yr achos busnes yn rhagdybio y byddai GCC yn tyfu'n gyflym ac y gellid cyrraedd y targed gwariant pan fyddai'r holl fframweithiau a'r contractau'n mynd yn fyw erbyn 1 Ebrill 2016. Yn ei gynllun busnes Mai 2015 am y cyfnod rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2019, roedd GCC yn rhoi'r ffigur hwn ar £2.2 biliwn o wariant blynyddol o'r 1 Ebrill 2016 ymlaen. Mae rhai cyrff cyhoeddus wedi lleisio pryder bod y targed gwariant uwch yn ddim ond ymgais gan GCC i gynyddu incwm. Fodd bynnag, mae GCC wedi pwysleisio bod Grŵp Cyflawni GCC wedi cytuno i'r camau a gymerodd ar ôl i'r Fforymau Categori eu hystyried.

5 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Caffael Cyhoeddus yng Nghymru**, Hydref 2017.

- 9 Yn 2015-16 gwariodd aelodau GCC £149m drwy fframweithiau a chontractau wedi eu rheoli gan GCC, yn erbyn amcan-uchafswm gwariant posib o £1.1 biliwn (ar sail cynllun busnes 2015). Gwariodd y sefydliadau nad ydynt yn aelodau £4 miliwn drwy GCC yn 2015-16, gan roi cyfanswm gwariant o £153 miliwn. Dengys y ffigurau dangosol ar gyfer 2016-17 gynnydd o 53% mewn gwariant i £234 miliwn drwy fframweithiau a chontractau GCC, £222 miliwn ohono'n ymwneud â sefydliadau sy'n aelodau o'r gwasanaeth⁶. Fodd bynnag, roedd y gwariant gan y cyrff sy'n aelodau ond yn 10% o'r gwariant targed o £2.2 biliwn yng nghynllun busnes 2015. Mae'r cyfanswm gwariant uwch drwy GCC yn 2016-17 yn bennaf oherwydd fframwaith cynhyrchion a gwasanaethau TG newydd (gwerth £37 miliwn). Dengys y ffigurau hefyd gynnydd o £28m mewn gwariant ar fframwaith nwy a thrydan sy'n seiliedig ar fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron ond a reolir gan GCC.
- 10 Ym mis Mehefin 2017 roedd gan GCC 57 o fframweithiau byw. Cawsom fod amrywiad eang yn y defnydd a wnaed o fframweithiau unigol gan aelodau unigol o GCC yn 2015-16 a 2016-17 (**Atodiad 2**). Mae'r patrwm hwn yn awgrymu bod GCC gryn bellter i ffwrdd o'i brif amcan o 'brynu unwaith i Gymru'. Yn 2016-17, roedd pedwar fframwaith yn cyfrif am bron i dri-chwarter yr holl wariant drwy GCC. Prin y defnyddiwyd rhai fframweithiau er iddynt fod yn fyw ers cryn amser. Cawsom hefyd nad yw'r system i optio allan o fframweithiau GCC yn gweithio a bod aelodau GCC yn defnyddio cytundebau consortia neu gyrff prynu cyhoeddus eraill sy'n darparu mwy neu lai'r un fath o nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Yn ddiweddar mae GCC ei hun wedi adnabod gwariant o £60m gan ei aelodau drwy fframweithiau Gwasanaethau Masnachol y Goron⁷ a allai gael eu darparu drwy fframweithiau GCC.
- 11 Mae defnydd llai na'r disgwyl o'r fframweithiau wedi cael effaith sylweddol ar incwm GCC gan olygu nad yw'n hunan-gynhaliol ac yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru am gymorth ariannol. O ganlyniad, nid yw GCC eto wedi gallu ad-dalu'r benthyciad buddsoddi-i-arbed o £5.92 miliwn a dderbyniodd gan Lywodraeth Cymru tuag at ei sefydlu. Roedd CC wedi bwriadu dechrau ad-dalu drwy'r gwarged y gobeithiai y byddai ganddo o'r 1 Ebrill 2016 ymlaen drwy godi ad-daliad gorfodol o 0.45% ar gyflenwyr. Yn 2016-17 dim ond £0.9 miliwn o incwm a wnaeth GCC, yn erbyn costau gweithredu o £2.8 miliwn.

6 Ni ddangosodd rhai fframweithiau unrhyw wariant yn 2015-16 a 2016-17. Nid yw GCC wedi gallu penderfynu a oedd hyn oherwydd na dderbyniodd wybodaeth reoli gan gyflenwyr neu oherwydd na ddefnyddiwyd y fframweithiau hyn. Mae GCC yn gweithio i ddatrys hyn. Dengys y ffigurau dangosol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a'r 31 Awst 2017 fod gwariant o £79m o leiaf wedi digwydd drwy fframweithiau GCC. Mae hyn yn gynnydd o 60% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2016-17.

7 Mae Gwasanaeth Masnachol y Goron (CCS) yn asiantaeth weithredol a noddir gan Swyddfa'r Cabinet sy'n dod â pholisi, cyngor a phrynu uniongyrchol at ei gilydd; i ddarparu gwasanaethau masnachol i'r sector cyhoeddus ar draws y DU. Defnyddiwyd fframweithiau'r CCS gan gyrff sector cyhoeddus ar gyfer gwariant cyhoeddus o £12.8 biliwn yn 2015-16. Yn 2015-16, prynodd y CCS hefyd werth £2.5 biliwn o nwyddau a gwasanaethau cyffredin ar ran adrannau'r llywodraeth.

- 12 Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio ei chronfeydd wrth gefn i gwrdd â'r diffyg hwn, sefyllfa fydd yn parhau'n flynyddol tan ddiwedd 2017-18 o leiaf⁸. Mae Bwrdd GCC a Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod ariannu GCC yn broblem. Lleisiwyd pryder y gallai codi mwy o ad-daliad ar gyflenwyr eu hatal rhag bidio am contractau, er bod y gyfradd o 0.45% yn is na'r ad-daliad a godir gan rai sefydliadau prynu cyhoeddus eraill. Mae Bwrdd GCC yn awr wedi cytuno i ad-daliad uwch o hyd at 1.5% lle bo hynny'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o'r fframweithiau'n aros ar 0.45% oherwydd bod y penderfyniad i ganiatáu ad-daliad uwch wedi'i wneud ar ôl i'r rhan fwyaf o'r fframweithiau presennol gael eu gosod. I GCC fod wedi adennill ei gostau yn 2016-17, byddai wedi bod angen codi ad-daliad o tua 1.2% ar y gwariant i gyd, neu byddai wedi bod angen gwariant o tua £622 miliwn gydag ad-daliad o 0.45%.
- 13 Mae GCC wedi adrodd arbedion ariannol i gyrff cyhoeddus sy'n fwy na'i gostau gweithredu, ochr yn ochr â manteision ehangach yn deillio o'i weithgareddau, er enghraifft i economi Cymru. Yn Awst 2017 dywedodd GCC fod arbedion o £14.8 miliwn wedi eu gwneud ar gyfer 2016-17, drwy gyfuniad o arbedion i ryddhau arian parod, prosesau mwy effeithlon ac osgoi costau. Mae'r ffigurau arbedion wedi bod yn sylweddol is na rhai amcan-arbedion cynnar ac mae rhai aelodau'n anghytuno â'r ffigurau arbedion⁹. Roedd yr achos busnes ar gyfer sefydlu GCC wedi amcangyfrif y byddai GCC yn cynhyrchu arbedion o £25 miliwn y flwyddyn o'r 1 Ebrill 2016 ymlaen¹⁰. Fodd bynnag, roedd yr amcangyfrifiad hwnnw'n seiliedig ar ragolwg gwariant drwy GCC – o hyd at £522 miliwn – oedd yn llawer mwy na'r hyn a wariwyd mewn gwirionedd.
- 14 Er bod y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus a holwyd gennym yn 2016 yn dal i gefnogi GCC mewn egwyddor, dim ond traean o'r aelodau oedd yn fodlon â'r gwasanaeth. Roedd y materion pryder a godwyd gyda ni gan aelodau'n cynnwys pa mor gystadleuol oedd y fframweithiau, y manteision ehangach a gallu ateb blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys yng nghyswllt y Gymraeg a datblygu cynaliadwy.

8 Gyda thystiolaeth o gynnydd pellach mewn gwariant drwy fframweithiau GCC yn ystod hanner cyntaf 2017-18, a mwy o fframweithiau bellach yn destun ad-daliad, disgwylir i GCC cynhyrchu incwm o £1 miliwn o leiaf yn 2017-18. Yr arwyddion cynnar yw y bydd yn cynhyrchu mwy na hyn, ar sail yr incwm o £0.5 miliwn a wnaed yn chwarter cyntaf 2017-18.

9 Ar gais Cyfarwyddwr GCC, mae gwasanaeth archwilio mewnol Llywodraeth Cymru wedi cyflawni dau archwiliad o'r trefniadau ar gyfer adrodd arbedion ac wedi adnabod rhai meysydd lle mae angen gwella o ran mesur ac adrodd ffigurau arbedion. Mae GCC yn ymateb i'r materion hyn.

10 Roedd yr achos busnes yn amcangyfrif y byddai £9m (36%) o'r arbedion £25 miliwn yn arbedion rhyddhau arian parod.

- 15 Yn ogystal, mae rhai cyrff cyhoeddus yn poeni nad yw GCC yn ddigon annibynnol i Lywodraeth Cymru. Un o'r prif bryderon yw bod cydbwysedd ffocws GCC yn tueddu i fod ar faterion cenedlaethol yn hytrach na blaenoriaethau lleol a bod gan Lywodraeth Cymru ddylanwad anghymesur dros GCC. Ym mis Medi 2017, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol fod Llywodraeth Cymru'n bwriadu ailwampio rôl GCC a rôl Gwerth Cymru¹¹ i sicrhau'r manteision mwyaf posib o gaffael cyhoeddus. Fel y dywedwn ym **mharagraff 4**, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu uno Bwrdd GCC a'r Bwrdd Caffael Cenedlaethol.
- 16 Yn Rhagfyr 2016, cafwyd adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar weithrediad Gwasanaeth Masnachol y Goron gan lunio casgliadau oedd mwy neu lai'n adlewyrchu rhai o'r materion sy'n berthnasol i ddatblygiad GCC (**Atodiad 1**). Casglodd yr adroddiad nad yw'n bosib dangos bod Gwasanaeth Masnachol y Goron wedi cyflawni mwy nag y byddai adrannau wedi'i gyflawni fel arall drwy brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith cyffredin eu hunain.

11 Mae Gwerth Cymru'n un o adrannau Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am wella'r arfer o gaffael cyhoeddus ac am helpu cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru i ddarparu gwerth am arian gwell o wariant gan drydydd partïon. Mae Gwerth Cymru hefyd yn goruchwyllo gwaith caffael Llywodraeth Cymru ac yn cefnogi cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru.

Argymhellion

- 17 Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar [Gaffael Cyhoeddus yng Nghymru](#) (Hydref 2017) yn argymhell, wrth symud ymlaen gyda'i chynlluniau i uno'r Bwrdd Caffael Cenedlaethol a Bwrdd GCC, y dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir ar ei gwefan beth oedd y strwythur llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru. Wrth geisio ateb yr argymhelliad hwnnw, byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gynnwys manylion am rôl, cyfrifoldeb a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer GCC.

Argymhellion

- R1 Er bod cyrff cyhoeddus ar y cyfan yn derbyn yr egwyddor bod angen gwasanaeth caffael cenedlaethol, i fod yn llwyddiant rhaid i GCC fod yn fframwaith dewis cyntaf. Mae llawer o aelodau GCC yn anfodlon ac mae'r defnydd llai na'r disgwyl o fframweithiau GCC wedi arwain at bryderon ynghylch ei ariannu. **Argymhellwn fod GCC:**
- a **yn nodi'n llawn y rhesymau pam fod ei aelodau'n dewis defnyddio trefniadau lleol neu gonsortia neu sefydliadau prynu cyhoeddus eraill i brynu nwyddau a gwasanaethau cyffredin ac ailadroddus a ddarperir drwy fframweithiau GCC;**
 - b **yn datblygu cynllun gweithredu i weithio gyda chyrff cyhoeddus i egluro beth yw manteision defnyddio GCC i brynu nwyddau a gwasanaethau cyffredin ac ailadroddus, a'u hannog i'w ddefnyddio;**
 - c **yn ystyried oni allai fframweithiau a chontractau ymrwymo mwy i feintiau a mesur faint o awydd sydd ymhlith aelodau i ddatblygu manylebau ar y cyd;**
 - d **yn ystyried y posibilrwydd o fframweithiau mwy rhanbarthol i roi mwy o gyfle i fusnesau bach a chanolig; a**
 - e **yn holi ei aelodau, a rhai nad ydynt yn aelodau, yn flynyddol i gasglu eu barn am ei wasanaeth.**
- R2 Er bod gan GCC system lle gall ei aelodau wneud cais i optio allan o ddefnyddio fframweithiau a chontractau GCC, nid yw hyn yn gweithio. Yn lle mynd drwy'r broses ffurfiol o optio allan, nid yw rhai cyrff cyhoeddus yn defnyddio fframweithiau na chontractau GCC. Er bod Bwrdd GCC wedi cyfaddef nad oedd y broses yn gweithio, roedd y Bwrdd wedi cytuno y byddai'r broses optio allan yn aros. **Argymhellwn wrth ymgynghori â'i aelodau, bod GCC yn adolygu'r broses optio allan ac yn gwneud newidiadau i sicrhau ei bod yn hawdd ei deall, yn ystyrion ac yn cael ei chymhwyso'n gyson.**

Argymhellion

- R3 Pwrpas codi ad-daliad gorfodol ar gyflenwyr oedd talu am gostau gweithredu GCC o'r 1 Ebrill 2016 ymlaen, ond yn 2016-17 dim ond £0.9 o incwm a gynhyrchodd GCC o'i gymharu â gwariant o £2.8m. Er bod arwyddion y bydd yr incwm yn cynyddu'n sylweddol yn 2017-18, ni ddisgwylir iddo dalu am y costau gweithredu. **Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru, GCC a sefydliadau eraill sy'n aelodau o GCC yn cytuno ar drefniant ariannu cynaliadwy i roi sylfaen ariannol gref i GCC.**
- R4 Mae adroddiad blynyddol GCC yn nodi'r prif bethau a gyflawnwyd yn y flwyddyn, fel nifer y fframweithiau a ddyfarnwyd, cyfanswm yr arbedion arian parod a wnaed, a faint o swyddi a grewyd. Mae hefyd yn rhoi manylion am werth posib y fframweithiau. Ond gallai hyn arwain at gamddealltwriaeth oherwydd nid yw'n nodi faint yn union o wariant a ddigwyddodd drwy fframweithiau GCC yn ystod y flwyddyn, sy'n allweddol i faint o incwm a gynhyrchir drwy'r ad-daliad gorfodol ar gyflenwyr ac yn ddangosydd allweddol o'r defnydd a wneir o fframweithiau GCC. **Argymhellwn mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol bod GCC yn cynnwys crynodeb, yn yr adran ar y prif gyflawniadau, o'r union wariant a ddigwyddodd drwy ei fframweithiau.**
- R5 Lleisiodd aelodau GCC, yn enwedig awdurdodau lleol, bryderon fod fframweithiau GCC yn cyfyngu ar gyfleoedd i gefnogi eu heconomi leol drwy gcontractio â busnesau bach a chanolig. Er bod GCC yn adrodd ar faint o fusnesau bach a chanolig sydd ar ei fframweithiau, **argymhellwn fod GCC yn gwneud ei aelodau'n fwy ymwybodol o'r darpariaethau y mae'n ei wneud drwy ei amrywiol sianeli adrodd.**

Roedd gwendidau yn natblygiad y cynllun busnes ar gyfer GCC, gan gynnwys modelu'r gofynion staffio ynghyd â sgôp tebygol a dylanwad GCC

- 1.1 Yn 2012 datblygodd Llywodraeth Cymru achos busnes ar gyfer gwasanaeth caffael cenedlaethol. Y prif amcan oedd i 'brynu unwaith i Gymru' ar ran y sector cyhoeddus mewn meysydd gwariant cyffredin ac ailadroddus a gwreiddio Datganiad Polisi Caffael Cymru o fewn pob contract a fframwaith.
- 1.2 Roedd yr achos busnes yn cyflwyno'r achos dros newid a'r ffordd orau o symud ymlaen. Fodd bynnag, nid oedd cynnwys yr achos busnes na'r broses ar gyfer ei ddatblygu'n cydymffurfio'n llawn ag arferion gorau mabwysiedig Llywodraeth Cymru o ddefnyddio'r 'Model Pum Achos' (Blwch 2).

Blwch 2 – y Model Pum Achos

Mae'r Model Pum Achos yn darparu fframwaith ac adnoddau i wneud penderfyniadau effeithiol wrth gwmpasu a chynllunio cynigion gwariant mewn ffordd drylwyr a chadarn a gellir ei ddefnyddio ar gyfer strategaethau, rhaglenni a phrosiectau unigol. Mae'n gofyn ystyried pum peth:

- yr achos strategol – cydweddu strategol ac amcanion buddsoddi clir;
- yr achos economaidd – optimeiddio gwerth am arian;
- yr achos masnachol – ei apêl i'r farchnad, a'r trefniadau caffael
- yr achos ariannol – fforddiadwyedd; a
- yr achos rheoli – pa mor ymarferol yw i'w ddarparu, a chynlluniau i'w ddarparu.

Mae cynigion mawr, cymhleth ar lefel prosiect yn cael eu datblygu mewn tair ffurf drwy:

- yr **Achos Strategol Amlinellol** (SOC) – sy'n dadlau'r achos dros newid ac yn llunio rhestr fer o'r rhestr hir o opsiynau;
- yr **Achos Busnes Amlinellol** (OBC) – sy'n adeiladu ar yr SOC i gadarnhau'r ateb sy'n cynnig y gwerth gorau am arian; a
- yr **Achos Busnes Llawn** (FBC) – sy'n adeiladu ar yr OBC gan roi'r cynlluniau ar gyfer darparu yn eu lle ac yn nodi costau manwl terfynol y cynllun.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 1.3 Ni chyflwynodd Llywodraeth Cymru bob un o'r pum achos yn yr achos busnes, dim ond yr achos ariannol a'r achos strategol. Ychwaith, dim ond un ffurf o'r achos busnes wnaeth Llywodraeth Cymru ei baratoi. Nid yw'n glir a gynhyrchwyd yr achos busnes fel achos busnes amlinellol neu fel achos busnes llawn.
- 1.4 Yn ôl adroddiad gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2015, dywedodd swyddogion a fu'n rhan o baratoi'r achos busnes nad oedd wedi mynd drwy'r Model Pum Achos arferol oherwydd ei fod yn achos busnes ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan, nid dim ond Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM yn argymhell yn glir y dylai pob corff cyhoeddus ddefnyddio'r Model Pum Achos.
- 1.5 Er bod yr achos busnes yn gosod allan y prif amcanion ar gyfer gwasanaeth caffael cenedlaethol, roedd gwendidau sylweddol yn ei gynnwys. Mae'r gwendidau hyn wrth wraidd rhai o'r anawsterau a wynebodd GCC ers hynny, fel y soniwn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Yn benodol, cawsom:
- nad oedd yr achos busnes yn myfyrio ar brofiad cyrff prynu cyhoeddus eraill, er enghraifft i oleuo penderfyniadau ynghylch pa fodel gweithredu i'w ddewis ac i fyfyrion ar yr amser y gallai fod ei angen i sefydlu fframweithiau newydd.
 - bod rhai o'r amcanion dywededig yn yr achos busnes y tu allan i sgôp a chyfrifoldeb GCC ac yn gyfrifoldeb gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus unigol, fel 'sicrhau datblygiad parhaus sgiliau caffael sector cyhoeddus'.
 - wrth benderfynu ar sgôp GCC, bod yr achos dros newid yn seiliedig ar ddata'n ymwneud â dim ond 0.4% o'r gwariant a ystyriwyd i fod o fewn sgôp gwasanaeth caffael cyhoeddus (**Blwch 3**).
 - nid oedd yr achos busnes yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rhai gorbenion allweddol, fel y swyddi'n ymwneud â gwybodaeth reoli, gwybodaeth fusnes, cyllid ac anfonebu. O ganlyniad, roedd Pennaeth Cyllid GCC wedi bod yn delio â'r holl faterion cyllid gan gynnwys gweinyddu cyffredinol a phrosesu anfonebau. Nid oes gan GCC ei Bennaeth Cyllid ei hun mwyach. Mae'r swyddogaethau cyllid craidd erbyn hyn yn cael eu darparu gan staff yn Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. Roedd GCC wedi rhoi sylw i'r bwloch mewn gwybodaeth fusnes unwaith yr oedd yn weithredol.
 - nid oedd y model ar gyfer y staff oedd ei angen i gyflawni amcanion dywededig GCC yn seiliedig ar arfer da yn y diwydiant.
 - er bod yr achos busnes yn nodi'r opsiynau ar gyfer sut y byddai GCC yn cael ei ariannu, nid oedd yn rhoi cyfiawnhad clir dros y model darparu oedd yn cael ei gynnig.

Blwch 3 – diffyg data sylfaenol i benderfynu ar sgôp GCC

Wrth ddatblygu'r achos busnes i gefnogi sefydlu GCC, roedd Llywodraeth Cymru wedi sefydlu 'ffrwd waith cyffredin ac ailadroddus' er mwyn adnabod beth fyddai sgôp posib y gwasanaeth, gan gynnwys y categorïau gwariant y byddai gwasanaeth o'r fath yn rhoi sylw iddynt; ac i roi enghreifftiau o amrywiadau mewn prisiau a manylebau.

Pwrpas yr ymarfer amrywiadau prisiau a manylebau oedd nodi unrhyw gyfleoedd i sicrhau gwerth gwell am arian, gan felly gefnogi'r achos dros newid. Roedd y broses wedi adnabod 63 o isgategorïau nwyddau, gwasanaethau a gwaith a dybiwyd i fod yn briodol eu hystyried o fewn sgôp gwasanaeth caffael cenedlaethol. O'r rhain dewisodd ymgynghorwyr 22 ar gyfer adolygiad prisiau a manylebau.

Fodd bynnag, dywedodd yr ymgynghorwyr mai data gwael iawn oedd ar gael a bod yr ymarfer yn 'eithriadol anodd ei gwblhau' oherwydd mai dim ond 4 allan o'r 22 categori oedd â data digon dibynadwy i wneud cymhariaeth resymol. O ganlyniad roedd y samplau a ddefnyddiwyd yn ddim ond 0.4% o'r gwariant a ystyriwyd i fod o fewn sgôp gwasanaeth caffael cenedlaethol.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o achos busnes GCC (2012)

- 1.6 Sgôp GCC yw nwyddau, gwasanaethau a gwaith sy'n cael eu hystyried i fod yn 'wariant cyffredin ac ailadroddus' (**Blwch 4**). Fel arfer mae'r rhain yn nwyddau, gwasanaethau a gwaith nad ydynt yn gymhleth i'w prynu nac o reidrwydd o werth uchel, fel nwyddau papur a dodrefn swyddfa, teithio a chaledwedd a meddalwedd TG. Maen nhw hefyd yn nwyddau, gwasanaethau a gwaith lle mae eu pris yn aml yn bwysicach na gwahaniaethau mewn ansawdd a lle mae'r sector cyhoeddus yn defnyddio ei rym i negodi bargaen well drwy swmp-brynu.

Blwch 4 – meini prawf i benderfynu pa nwyddau, gwasanaethau a gwaith sy'n wariant cyffredin ac ailadroddus

Disgrifiodd yr achos busnes ar gyfer GCC fod yn rhaid cwrdd ag o leiaf pedwar o'r meini prawf canlynol i wariant gael ei ystyried i fod yn gyffredin ac ailadroddus:

- Yn cael eu caffael nifer o weithiau mewn unrhyw gyfnod penodol.
- Nifer o safleoedd, defnyddwyr neu brynwyr neu sy'n gyffredin i o leiaf ddau sefydliad prynu.
- Y posibilrwydd o ddatblygu manyleb, peirianeg gwerth neu safoni cyffredin neu debyg.
- Yn addas ar gyfer rhesymoli, cyfuno a negodi ar sail faint a brynnir.
- Ffynonellau cyflenwi, dyblygu neu ailadrodd lluosog yn y gymuned ddefnyddwyr.
- Wedi eu caffael yn hanesyddol a bydd angen eu prynu yn y dyfodol.

Ffynhonnell: Achos busnes GCC (2012)

- 1.7 Ar sail dadansoddiad o wariant 35 o gyrff cyhoeddus yn 2010-11, roedd yr achos busnes wedi adnabod bod gwerth blynyddol y gwahanol nwyddau, gwasanaethau a gwaith oedd o fewn sgôp GCC yn £967 miliwn¹². Fodd bynnag, roedd yr achos busnes yn amcangyfrif y byddai GCC ond yn gallu dylanwadu ar £522 miliwn o'r gwariant hwn, sef tua 13% o'r holl wariant ar gaffael cyhoeddus oedd yn digwydd ar y pryd. Roedd yr achos busnes yn tybio y byddai GCC yn tyfu'n gyflym ac y byddai'r gwariant targed yn cael ei gyrraedd pan fyddai'r holl fframweithiau a chontractau'n mynd yn fyw ar 1 Ebrill 2016.

¹² Roedd hyn yn llai na hanner gwerth llawn y gwariant cyffredin ac ailadroddus a nodwyd ond yn adlewyrchu penderfyniadau a wnaed ar y pryd ynghylch ffocws gweithgareddau GCC.

- 1.8 Er bod y meini prawf (**Blwch 3**) yn aros yr un fath, ers hynny mae GCC wedi cynyddu ei amcangyfrif o beth yw gwariant cyffredin ac ailadroddus. Yn Ionawr 2014 cytunodd Bwrdd GCC, yn dilyn dadansoddi data gwariant 2012-13, y gallai GCC dargeddu hyd at £1.8 biliwn o wariant cyffredin ac ailadroddus drwy ei gytundebau a'i fframweithiau pan fyddai'n mynd yn weithredol ar 1 Ebrill 2016.
- 1.9 Ym mis Mai 2015, cyhoeddodd GCC ei gynllun busnes cyntaf ar gyfer Ebrill 2015 – Mawrth 2019. Roedd y cynllun yn ail-ddatgan elfennau o'r achos busnes ac yn ystyried yr hinsawdd newydd o ran caffael cyhoeddus a thoriadau cyllid gan danlinellu pa mor bwysig oedd sicrhau'r gwerth gorau am arian. Roedd proses y cynllun busnes yn cynnwys ail-werthusiad pellach o faint o wariant cyffredin ac ailadroddus y gallai GCC ddylanwadu arno. Roedd yr ail-werthusiad, a gytunwyd gan Grŵp Cyflawni GCC, yn awgrymu bod gwerth y gwariant cyffredin ac ailadroddus yng Nghymru yn tua £2.2 biliwn, bron i hanner cyfanswm y gwariant caffael oedd wedi'i fesur ar y pryd. Roedd GCC wedi targedu uchafswm gwariant blyneddol o hyd at £1.1 biliwn drwy ei gytundebau a'i fframweithiau ar gyfer 2015-16, gan godi i £2.2 biliwn unwaith y byddai'n weithredol o'r 1 Ebrill 2016 ymlaen.
- 1.10 Mae rhai cyrff cyhoeddus wedi lleisio pryder bod y gwariant targed uwch yn ddim ond ymgais gan GCC i gynyddu ei incwm (**paragraffau 1.36-1.41**). Fodd bynnag, mae GCC wedi pwysleisio bod Grŵp Cyflawni GCC wedi cytuno i'r camau a gymerodd ar ôl i'r Fforymau Categori eu hystyried. Mae'r materion a drafodir a'r penderfyniadau a wneir gan y Grŵp Cyflawni'n cael eu cyfathrebu i gwsmeriaid GCC yn fisol. Mae ein hadolygiad o gofnodion y Grŵp Cyflawni'n awgrymu ar y cyfan bod ymgysylltu da ar draws y gwahanol sefydliadau a gynrychiolir.

Dengys ffigurau dangosol fod cyrff cyhoeddus wedi gwario £234 miliwn drwy GCC yn 2016-17, £222 miliwn ohono wedi'i wario gan aelodau GCC

1.11 Mae gwariant drwy fframweithiau a contractau a reolir gan GCC wedi bod yn cynyddu dros y tair blynedd diwethaf (**Ffigwr 2**), ond yn dal i fod yn llawer llai nag amcangyfrifon blaenorol. Yn 2015-16 gwariodd cyrff sy'n aelodau o GCC £149 miliwn drwy contractau a fframweithiau a reolir gan GCC, yn erbyn amcan-uchafswm gwariant posib o £1.1 biliwn (**paragraff 1.9**)¹³. Gwariodd sefydliadau nad ydynt yn aelodau o GCC £4 miliwn arall drwy GCC yn 2015-16, gan roi cyfanswm gwariant o £153 miliwn, i fyny o £102 miliwn yn 2014-15. Fodd bynnag, dangosodd rai fframweithiau ddim gwariant yn 2015-16 a 2016-17. Nid yw GCC wedi gallu penderfynu a oedd hyn oherwydd na dderbyniodd wybodaeth reoli gan gyflenwyr neu oherwydd na ddefnyddiwyd y fframweithiau hyn. Mae GCC yn gweithio i ddatrys hyn.

13 Roedd gwariant 2015-16 yn cynnwys £10m ar gontract gydag eFasnachu Cymru wedi'i gaffael drwy GCC ar gyfer Llywodraeth Cymru. Gwasanaeth wedi'i ariannu'n ganolog yw eFasnachu Cymru sydd ar gael i holl aelodau GCC, lle gall prynwyr a chyflenwyr ryngweithio'n electronig i gyflenwi a thalu am nwyddau a gwasanaethau.

Ffigur 2: gwariant drwy fframweithiau a chontractau GCC, 2014-15 a 2016-17

Sector	2014-15 (£ miliynau)	2015-16 (£ miliynau)	2016-17 (£ miliynau)
Sefydliadau sy'n aelodau o GCC			
Awdurdodau Lleol	75	115	173
Llywodraeth ganolog a chyrff a noddur ¹	12	21	20
GIG Cymru	10	5	15
Addysg Bellach	2	2	2
Yr Heddlu	1	3	5
Tân ac Achub	0.3	1.5	3
Addysg Uwch	2	1.5	4
Aelodau o GCC	102	149	222
Heb fod yn aelodau²	0	4	11
Cyfanswm	102	153	234³

Nodiadau:

- 1 Gwariant gan Lywodraeth Cymru yw'r prif wariant a wneir gan lywodraeth ganolog a chyrff a noddur. Er enghraifft, roedd gwariant Llywodraeth Cymru'n cyfrif am £15.1 miliwn (76%) o'r holl wariant ar gyfer y sector hwn yn 2016-17.
- 2 Mae'r ffigurau ar gyfer gwariant gan gyrff nad ydynt yn aelodau'n cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru: £107,049 (2015-16) a £262,198 (2016-17).
- 3 Mae cyfannu'r ffigurau'n golygu bod y cyfanswm o £234 miliwn ar gyfer 2016-17 yn wahanol i'r hyn a awgrymir gan y ffigurau unigol uchod ar gyfer cyrff sy'n aelodau a heb fod yn aelodau.

Ffynhonnell: GCC

- 1.12 Dengys y ffigurau dangosol ar gyfer 2016-17 gynnydd o 53% mewn gwariant i £234 miliwn drwy fframweithiau a chontractau GCC, £222 miliwn ohono'n ymwneud â sefydliadau sy'n aelodau o'r gwasanaeth. Er hynny, mae'r gwariant o £222 miliwn gan aelodau yn 2016-17 yn cynrychioli dim ond 10% o'r gwariant targed o £2.2 biliwn yng nghynllun busnes 2015. Er yn allweddol i'w lwyddiant ac i gynhyrchu incwm i dalu am ei gostau gweithredu ([paragraffau 1.36-1.41](#)), nid yw GCC wedi adrodd ffigurau ar gyfanswm y gwariant drwy ei fframweithiau a'i gontractau yn ei adroddiadau blynyddol.
- 1.13 Roedd awdurdodau lleol yn cyfrif am tua thri chwarter yr holl wariant drwy GCC yn y cyfnod rhwng 2014-15 2016-17. Yn rhannol, mae'r twf mewn gwariant llywodraeth leol dros y cyfnod hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod GCC wedi etifeddu a/neu ddisodli rhai fframweithiau gan Gonsortium Prynu Cymru, sydd bellach wedi dod i ben ([paragraff 2](#)).
- 1.14 Fel y dywedasom yn ein hadroddiad diweddar ar **Gaffael Cyhoeddus yng Nghymru**, mae cyrff cyhoeddus hefyd wedi bod yn defnyddio ystod o gonsortia a chyrff prynu cyhoeddus cyffredinol neu sector-benodol eraill i raddau amrywiol. Er enghraifft, nododd ein hadroddiad wariant o £634 miliwn gan gyrff y GIG yn 2015-16 drwy fframweithiau a chytundebau cydw eithredol a reolir drwy Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae hyn yn cymharu â dim ond £5 miliwn o wariant gan gyrff y GIG drwy GCC dros yr un cyfnod.
- 1.15 Yn 2016-17, roedd fframweithiau newydd yn cyfrif am £11 miliwn o'r cynnydd mewn gwariant drwy GCC o'i gymharu â 2015-16. Yn ogystal, nid oedd yr holl fframweithiau a gyfrannodd at wariant 2015-16 wedi bod yn eu lle am y flwyddyn gyfan ([Atodiad 2](#)).
- 1.16 Dengys ffigurau dangosol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Awst 2017 wariant o £79 miliwn o leiaf drwy fframweithiau GCC. Mae hyn yn gynnydd o 60% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2016-17.

Ym Mehefin 2017, roedd gan GCC 57 o fframweithiau byw er mai prin y defnyddiwyd rhai ohonynt er iddynt fod yn fyw ers cryn amser.

- 1.17 Ym Mehefin 2017 roedd gan GCC 57 o fframweithiau byw o dan saith categori gwariant¹⁴. Ers ei sefydlu yn Nhachwedd 2013, mae GCC wedi cymryd rhai fframweithiau drosodd o gyrff prynu cyhoeddus, consortia prynu neu gyrff cyhoeddus eraill, fel Consortiwm Prynu Cymru (**paragraff 2**). Mae GCC wedi ailnegodi telerau a hyd a lled rhai o'r cytundebau hyn. Oherwydd bod y fframweithiau etifeddol hyn wedi dod i ben, mae GCC wedi disodli'r rhan fwyaf gyda fframweithiau newydd.
- 1.18 Mae GCC hefyd wedi hwyluso contractau yn ôl y galw i'w defnyddio gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru drwy fframweithiau presennol Gwasanaeth Masnachol y Goron. Er enghraifft, defnyddiodd GCC fframweithiau presennol Gwasanaeth Masnachol y Goron i gytuno fframweithiau ar delerau GCC i ddarparu nwy a thrydan (**Blwch 5**). Gyda'i gilydd, roedd y fframweithiau cyflenwi nwy a thrydan yn cyfrif am £68 miliwn (29%) o'r holl wariant drwy fframweithiau GCC yn 2016-17, a £39.9 miliwn (26%) yn 2015-16. Roedd y fframwaith nwy a thrydan yn cyfrif am fwy na 50% o'r cynnydd mewn gwariant drwy fframweithiau GCC rhwng 2014-15 a 2016-17 (**Ffigwr 2**).

Blwch 5 – trefniadau GCC ar gyfer fframweithiau nwy a thrydan

Roedd y fframwaith hwn yn seiliedig ar gytundeb presennol gan Wasanaethau Masnachol y Goron ond sydd heb ei ddefnyddio gan gyrff y GIG sy'n caffael ynni drwy Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Rheolir y cytundeb gan GCC ar ran cyrff cyhoeddus ar ôl trosglwyddo o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn Hydref 2015. Mae hyd a lled y cytundeb wedi ehangu ers hynny.

Mae dau aelod o staff llawn amser gyda GCC, a drosglwyddodd o'r Cyngor, yn gyfrifol am reoli cwsmeriaid a rhoi contractau yn eu lle ar draws Cymru. Mae'r contract yn cynnwys ad-daliad gan gyflenwyr sy'n talu am y ddau aelod o staff sy'n rheoli'r contractau.

Ffynhonnell: GCC

¹⁴ Y saith categori yw: TGCh; gwasanaethau proffesiynol; gwasanaethau corfforaethol a chymorth busnes; adeiladu a rheoli cyfleusterau; gwasanaethau pobl a chyfleustodau; bwyd a diod; a fflyd a thrafnidiaeth. Mae'r 57 fframwaith yn cynnwys pedwar a sefydlwyd ers diwedd blwyddyn ariannol 2016-17.

1.19 Ynghyd â'r fframweithiau nwy a thrydan, roedd tri fframwaith arall – i gyflenwi gweithwyr asiantaeth, cynhyrchion a gwasanaethau TG, a thanwyddau hylif – yn cyfrif am bron i dri chwarter (£174 miliwn) yr holl wariant drwy GCC yn 2016-17 (**Ffigwr 3 ac Atodiad 2**). Roedd gweithwyr asiantaeth hefyd wedi cyfrif am £46.4 miliwn (30%) o'r gwariant drwy GCC yn 2015-16. Roedd y gwariant hwnnw'n cynnwys £35.3 miliwn ar gcontract fframwaith yr oedd GCC wedi'i etifeddu gan Gonsortium Prynu Cymru. Roedd GCC wedi ailnegodi telerau'r cytundeb ac wedi ei ehangu ar draws mwy o gyrrff cyhoeddus. Dim ond ar ddechrau 2016 y cyflwynwyd y fframwaith cynhyrchion a gwasanaethau TG.

Ffigwr 3: fframweithiau GCC sydd fwyaf o werth ar sail gwariant gan aelodau a rhai heb fod yn aelodau yn 2016-17¹⁵

Fframwaith	Gwariant 2016-17 (£ miliynau)
Nwy a Thrydan ¹	68.33
Gwasanaeth Gweithwyr Asiantaeth a Reolir gan GCC	50.02
Cynhyrchion a Gwasanaethau TG	37.44
Cyflenwi Tanwyddau Hylif	17.75
Plymio Systemau Gwresogi Trydanol a Deunyddiau Cysylltiedig	5.68
Cytundeb Fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Asiantaethau Cyfryngau	5.10
Deunyddiau Adeiladu Cyffredinol	4.69
Ymgynghoriaeth Adeiladu Cam 2	4.38
Defnyddiau Traul Argraffu III	3.32
Ymgynghoriaeth Adeiladu (Eiddo)	3.26
Llogi Cerbydau	2.93
Darparu Atebion Dodrefn	2.61
Gwasanaeth a Reolir ar gyfer Cynlluniau Buddiannau Gweithwyr	2.50

15 Mae Atodiad 2 yn rhoi manylion llawn am yr holl wariant drwy fframweithiau GCC yn 2016-17 ynghyd â pheth gwybodaeth am 2015-16.

Fframwaith	Gwariant 2016-17 (£ miliynau)
Cytundeb Fframwaith Cymru Gyfan GCC ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol gan Gyfreithwyr	2.38
Halen Craig GCC	2.17
Fframwaith Gwasanaethau Argraffu Cymru Gyfan	2.05
Effeithlonrwydd Adnoddau Cymru ²	2.00
Cardiau Tanwydd	1.96
Rheoli Cyfleusterau Cam 1	1.81
Gofal Cymdeithasol – Technoleg Gynorthwyol	1.74
Teiars a Gwasanaethau Cysylltiedig	1.72
Gwasanaeth Gweithwyr Asiantaeth a Reolir gan Gonsortiw Prynu Cymru	1.25
Cyflenwi Papur a Nwyddau Swyddfa	1.16

Nodiadau:

- 1 Mae nwy a thrydan yn ddau fframwaith ar wahân ond mae'r data gan GCC wedi'i gyfuno.
- 2 Mae fframwaith 'Effeithlonrwydd Adnoddau Cymru' yn darparu gwasanaethau'n ymwneud â rhoi cyngor ar arbed ynni a gwasanaeth ymgynghori amgylcheddol.

Ffynhonnell: GCC

- 1.20 Cawsom fod amrywiad eang yn y defnydd a wnaed o fframweithiau unigol gan aelodau unigol o GCC yn 2015-16 a 2016-17 (**Atodiad 2**). Mae'r patrwm hwn yn awgrymu bod GCC gryn bellter i ffwrdd o'i brif amcan o 'brynu unwaith i Gymru', er mewn rhai achosion y gallai'r galw amrywio oherwydd bod gan gyrff cyhoeddus eu gwasanaethau mewnol eu hunain. Y fframwaith a ddefnyddiwyd amlaf yn 2016-17 oedd 'Defnyddiau Traul Argraffu III' a ddefnyddiwyd gan 82% o aelodau GCC o leiaf unwaith. Mae'r fframwaith hwn bellach wedi dod i ben ac wedi'i ddisodli gan fframwaith Dyfeisiau Amldefnydd ehangach a ddechreuodd yn Ionawr 2017.
- 1.21 Mewn cyferbyniad â hynny, ychydig iawn y defnyddiodd rhai aelodau ar rai fframweithiau, neu ddim ond i brynu pethau cost isel iawn. Er enghraifft, defnyddiwyd naw fframwaith gan lai na thraean o aelodau GCC yn 2016-17. Fodd bynnag, roedd pump o'r fframweithiau hyn ymhlith 12 oedd ond wedi eu sefydlu yn 2016-17 ac mae'n gallu cymryd amser ar ôl i fframweithiau ddod i ben i'r rhai newydd ddechrau ennill eu plwyf. Mae rhai fframweithiau fel fframwaith Cyfieithu Cymru, fframwaith Effeithlonrwydd Adnoddau Cymru a'r Cytundeb Fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Asiantaethau Cyfryngau, wedi bod yn eu lle ers blynnyddoedd ond defnyddiwyd hwynt gan lai na hanner aelodau GCC yn 2016-17.
- 1.22 Roedd Llywodraeth Cymru'n cyfrif am £0.3 miliwn (58%) o'r holl wariant gan aelodau GCC a rhai heb fod yn aelodau drwy fframwaith Cyfieithu Cymru yn 2016-17. Dywedodd staff GCC wrthym eu bod wedi disgwyl i'r rhan fwyaf o'r gwariant ddod gan Lywodraeth Cymru ac y gallai sefydliadau eraill fod wedi gallu ateb eu hanghenion drwy wasanaeth mewnol. Yn achos Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, nid oedd y fframwaith yn darparu ar gyfer y lefel wasanaeth benodol iawn oedd ei angen arnynt (**Astudiaeth achos 2 ar dudalen 30**).

- 1.23 Yn achos fframwaith Effeithlonrwydd Adnoddau Cymru, roedd y £1.9 miliwn a wariwyd gan Lywodraeth Cymru'n cyfrif am 95% o'r holl wariant gan aelodau a rhai heb fod yn aelodau. Roedd hyn yn rhannol oherwydd penderfyniad Llywodraeth Cymru i ariannu'n llwyr neu'n rhannol y cyngor ehangach a roddwyd i gyrff cyhoeddus fel rhan o raglen Cymru Effeithlon¹⁶, yn lle bod sefydliadau unigol yn caffael eu cyngor eu hunain. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfrif am £1.8 miliwn (dros 99%) o'r holl wariant ar fframwaith Gwasanaethau Rheoli Cyfleusterau Cam 1, a ddefnyddiwyd ond gan un sefydliad arall yn 2016-17. Roedd dau fframwaith arall oedd yn fyw drwy gydol 2016-17 gyda Llywodraeth Cymru'n cyfrif am dros 50% o'r gwariant gan aelodau a rhai heb fod yn aelodau. Y rhain oedd: Teithio a Llety ar gyfer Busnes, £405,289 (54%); a Gwasanaethau Asiantaethau Cyfryngau, £3.94 miliwn (77%)¹⁷.
- 1.24 Ni ddefnyddiwyd wyth fframwaith o gwbl yn 2016-17. Roedd pedwar o'r rhain wedi eu sefydlu cyn dechrau'r flwyddyn a'r pedwar arall yn ystod y flwyddyn¹⁸. Roedd yr wyth fframwaith na ddefnyddiwyd yn cynnwys Tanwyddau Biomas. Ni fydd y fframwaith hwnnw, a roddwyd yn ei le ar gais cwsmeriaid, yn cael ei adnewyddu pan ddaw i ben yn 2019. Yn ddiweddar mae GCC wedi cytuno na fydd yn sefydlu unrhyw fframweithiau newydd sy'n werth llai na £1 miliwn y flwyddyn. Bydd hefyd ond yn sefydlu fframweithiau newydd sy'n werth llai na £5 miliwn os oes galw clir ar draws nifer o wahanol gyrff cyhoeddus.
- 1.25 Ers Mawrth 2016 mae GCC wedi cynhyrchu 'Adroddiadau Map Gwres' i ystyried y defnydd a wneir o fframweithiau GCC dros gyfnod penodol. Roedd y ffocws cychwynnol ar fapio'r sector llywodraeth leol. Mae adroddiadau ychwanegol yn rhoi dadansoddiad o gyfanswm y gwariant a'r arbedion i bob sefydliad ac mae pob awdurdod lleol yn derbyn ei adroddiad sefydliadol ei hun, gyda dadansoddiad yn ôl fframwaith. Fodd bynnag, fel cymorth gweledol, gallai'r mapiau gwres eu hunain fod wedi creu camddealltwriaeth oherwydd nid oeddent yn ystyried faint a wariwyd a pha mor aml. Fe wnaethom godi'r mater hwn â GCC yn Ebrill 2017. Ers hynny mae GCC wedi diweddarau'r dull i ddangos sut y mae fframweithiau unigol yn cyfrannu at gyfanswm y gwariant drwy GCC a sut y mae sefydliadau neu sectorau penodol yn cyfrannu at y gwariant ar y fframweithiau.

16 Yn dilyn mini-gystadleuaeth ar fframwaith GCC, defnyddiodd raglen Cymru Effeithlon nifer o gyflenwyr i ddarparu cyngor ar arbed ynni a gwasanaeth ymgynghori amgylcheddol. Roedd y rhaglen yn cyfrif am £0.75 miliwn o'r £1.9 miliwn o wariant gan Lywodraeth Cymru ar fframwaith Effeithlonrwydd Adnoddau Cymru gan ymgysylltu ag ystod eang o gyrff cyhoeddus, grwpiau eraill a chyrrff trydydd sector.

17 Yn yr un modd, roedd gwahanol awdurdodau lleol unigol yn cyfrif am 62%, 52% ac 80% o'r gwariant ar y fframwaith Gwasanaethau Glanhau a Phorthorol, y fframwaith Plymio Systemau Gwresogi Trydanol a Deunyddiau Cysylltiedig, a'r fframwaith Systemau Rheoli Llyfrgelloedd, yn y drefn honno.

18 Fel y nodwn ym mharagraff 1.11, nid yw GCC wedi gallu penderfynu a oedd hyn oherwydd na dderbyniodd wybodaeth reoli gan gyflenwyr, neu oherwydd na ddefnyddiwyd y fframweithiau hyn.

Nid yw'r system ar gyfer optio allan o fframweithiau GCC yn gweithio ac mae aelodau GCC yn defnyddio cytundebau consortia neu gyrrff prynu cyhoeddus eraill sy'n darparu mwy neu lai'r un fath o nwyddau, gwasanaethau a gwaith

- 1.26 Pan oedd aelodau unigol yn ymrwmo i ddefnyddio GCC, roedd GCC yn rhoi cyfle i bob sefydliad optio allan o gategorïau caffael penodol. Os nad oedd y sefydliad yn optio allan ar y pwynt hwnnw, roedd GCC yn cymryd eu bod yn ymrwmo i ddefnyddio unrhyw fframweithiau a chontractau presennol ac i ddod drwy GCC. Penderfynodd Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili optio allan o 40% o'r fframweithiau pan sefydlwyd GCC, gan optio i mewn dim ond pan oedd y cytundeb yn cynnig telerau mwy ffafriol neu werth am arian gwell nag opsiynau eraill. Er hynny, gwariodd y Cyngor tua £13 miliwn drwy fframweithiau GCC yn 2016-17, y pumed uchaf o'r holl sefydliadau sy'n aelodau o GCC.
- 1.27 Os yw sefydliad sy'n aelod yna'n penderfynu optio allan o fframwaith neu gytundeb GCC, disgwylir iddynt wneud hynny drwy broses 'optio allan' ffurfiol. Mae'r broses yn cynnwys cyflwyno achos busnes i Fwrdd GCC sydd yna'n cymeradwyo neu'n gwrthod iddynt optio allan. Hyd at fis Mehefin 2017 roedd Bwrdd GCC wedi derbyn 19 cais i optio allan o gytundebau fframwaith a dim ond un a dderbyniwyd yn ffurfiol. Fodd bynnag, mae'n glir bod y broses optio allan ffurfiol yn aneffeithiol ([Astudiaeth achos 1](#)).

Astudiaeth achos 1 – optio allan o contractau fframwaith GCC

Ar ddechrau 2016, aeth **Cyngor Abertawe** drwy'r broses optio allan ffurfiol ar gyfer fframwaith yswiriant GCC gyda golwg ar fod yn un o'r partion wedi eu henwi yn y cytundeb, ond gyda'r opsiwn i optio i mewn pe dymument wneud hynny. Er bod Bwrdd GCC wedi gwrthod y cais i optio allan, roedd y Cyngor er hynny wedi optio allan o ddefnyddio'r fframwaith am y rhesymau canlynol:

- barn y Cyngor oedd, ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o yswiriant, y byddai'n amhosib caffael un polisi dros nifer o wahanol gyrrff cyhoeddus oherwydd ni fyddai'n bosib i GCC gytuno ar delerau yswiriant ar sail Cymru gyfan;
- na fyddai'n lleihau biwrocratiaeth fel y dywedai GCC y byddai'n ei wneud oherwydd byddai dal angen i bob corff cyhoeddus unigol gynnal mini-gystadlaethau pan fyddai'r angen yn codi; a
- drwy barhau i fod yn gyfrifol am gaffael gwasanaethau yswiriant, roedd pob sefydliad prynu'n sicrhau y gallent barhau i fod mor ymatebol â phosib i newidiadau yn y farchnad.

Bu GCC yn ystyried y materion a godwyd gan y Cyngor gan nodi bod y Fforwm Categoriâu Yswiriant, a ddatblygodd y model caffael, wedi diystyru'r posibilrwydd o gael polisi Cymru gyfan yn gynnar yn y broses. Cadarnhaodd GCC eu barn y byddai'r fframwaith yn lleihau costau a biwrocratiaeth. Nododd GCC hefyd fod y Fforwm Categoriâu Yswiriant wedi adnabod cyfleoedd mewnfuddsoddi posib ar gyfer Cymru yn y sector hwn drwy contract Cymru Gyfan ar y cyd. Roedd y Cyngor o'r farn na ddylai hyn fod yn ffactor dros gael cytundeb Cymru gyfan ac na fyddai'n gwneud fawr ddim gwahaniaeth o gofio bod y farchnad yswiriant yn y DU yn aeddfed ac yn ymwybodol iawn o'r farchnad llywodraeth leol yng Nghymru. Cadarnhaodd y Cyngor eu safiad o fod yn un o'r partion wedi eu henwi ar y fframwaith ond y gallent optio i mewn dim ond pe dymument wneud hynny.

Ym mis Medi 2014, gwrthododd Fwrdd GCC achos **Cyngor Caerdydd** dros optio allan o'r fframwaith **deunyddiau adeiladu**. Er hyn, penderfynodd Gyngor Caerdydd gyflwyno eu tendr eu hunain am ddeunyddiau adeiladu. Ysgrifennodd GCC at Brif Weithredwr Cyngor Caerdydd i roi gwybod iddynt eu bod yn euog o 'dor-lywodraethu'. Fodd bynnag, ni allai GCC orfodi'r Cyngor i ddefnyddio contract GCC.

Ffynhonnell: Arolwg o aelodau GCC gan Swyddfa Archwilio Cymru

- 1.28 Er bod Bwrdd GCC, yn ffurfiol, ond wedi derbyn un achos dros optio allan, mae'n glir bod rhai sefydliadau'n dewis peidio â defnyddio'r broses ffurfiol ac yn optio allan yn answyddogol drwy beidio â defnyddio'r fframweithiau. Cawsom dystiolaeth hefyd o awdurdod lleol yn sefydlu fframwaith mewn partneriaeth â thrydydd parti sector preifat i Gyflenwi Deunyddiau a Gwasanaethau Marsiandïwyr ar gyfer Gwaith Effeithlonrwydd Ynni. Mae'r fframwaith yn gorgyffwrdd ag agweddau ar ddau fframwaith gan GCC ac ar gael i awdurdodau lleol eraill a chymdeithasau tai yng Nghymru.
- 1.29 Mae adegau eraill pryd na ddefnyddiodd gyrff cyhoeddus fframweithiau GCC oherwydd nad oeddent yn ateb eu gofynion penodol. Yn yr enghreifftiau hyn, er i'r materion dan sylw gael eu trafod rhwng GCC a'r cyrff perthnasol, ni aethant drwy'r broses optio allan ffurfiol (**Astudiaethau achos 2 a 3**).

Astudiaeth achos 2 – gwasanaeth cyfieithu ar gyfer Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ni allai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru brynu'r gwasanaeth cyfieithu yr oedd ei angen arno drwy fframwaith Cyfieithu Cymru GCC. Mae angen gwasanaeth pwrpasol ar Gomisiwn y Cynulliad a rhaid iddo gael cyfieithiad o'r Cofnod o fewn 48 awr i fusnes y Cynulliad. I ddarparu'r lefel yma o wasanaeth, rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fod yn gallu dyfarnu'r gwaith yn uniongyrchol. Drwy fframwaith GCC, gall cyflenwyr ddewis gwrthod gwaith neu fidio amdano drwy fini-gystadlaethau. Ni fyddai'r un o'r ddau drefniant yn gweithio i Gomisiwn y Cynulliad.

Dywedodd staff GCC eu bod yn fodlon â phenderfyniad y Comisiwn i optio allan gan gydnabod bod eu gofynion yn wahanol i'r gwasanaeth oedd ei angen ar gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Felly nid aeth Comisiwn y Cynulliad drwy'r broses optio allan ffurfiol (**paragraff 1.27**).

Astudiaeth achos 3 – contract dodrefn ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yn 2012, penderfynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adolygu ei anghenion llety yn ne-ddwyrain Cymru. Ym mis Mai 2015, ar ôl llunio rhestr fer o bedwar opsiwn, penderfynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar adeilad yng Nghwr y Ddinas, Caerdydd. Roedd y briff ar gyfer dodrefnu'r adeilad yn pwysleisio bod angen cynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol ond am bris llawer is na phris y farchnad am ddodrefnu adeilad newydd. Datblygodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fanyleb ar sail defnyddio carpedi a dodrefn wedi eu hailgylchu a'u hailwampio. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn meddwl bod hyn yn gyfle i ddangos eu bod yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru'n dyfarnu mwy o bwyntiau yn ystod y broses dendro os oedd cyflenwyr yn defnyddio dodrefn ail-law, wedi eu hail-ddefnyddio a / neu eu hailwampio.

Cysylltodd Iechyd Cyhoeddus Cymru â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) ynghylch eu fframweithiau, ond cawsant wybod nad oedd yr un yn addas. Fodd bynnag, dywedodd GCC wrth y NWSSP y dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru ystyried defnyddio fframwaith drwy GCC. Edrychodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar fframweithiau GCC ond ni allent ddod o hyd i gyflenwr a allai gwrdd â meini prawf dylunio a chynaliadwyedd y fanyleb. Ar ôl derbyn cyngor cyfreithiol gan y NWSSP, penderfynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gyflawni proses gaffael OJEU lawn gyda chefnogaeth y NWSSP.

Dyfarnodd Iechyd Cyhoeddus Cymru'r contract i gonsortiw m o dri chwmni bach a chanolig a ddangosodd y dulliau mwyaf cynaliadwy o ddarparu'r prosiect cyfan. Mae'r holl ddodrefn yn y swyddfa newydd wedi ei ailgylchu, naill ai o Iechyd Cyhoeddus Cymru neu rywle arall, gan gynnwys eitemau oedd fod i fynd i safleoedd tirlenwi ond sydd wedi eu glanhau a'u hadfer i'w defnyddio yn yr adeilad. Cafodd y carpedi eu darparu gan fenter gymdeithasol sy'n uwchsgilio a hyfforddi pobl ddiwaith hirdymor fel gosodwyr carpedi a hefyd yn helpu teuluoedd ar incwm isel i ddod o hyd i deils carped i'w cartrefi. Mae'r cwmni budd cymunedol hwn wedi darparu teils carped a ailgylchwyd yn defnyddio'r staff newydd eu hyfforddi, gyda rhai ohonynt bellach wedi dod o hyd i waith parhaol o ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect hwn.

Ym mis Mai 2017 cafodd y prosiect ei gydnabod mewn pedwar categori yng Ngwobrau Cynaliadwyedd GIG y DU, gan ennill yn y categori caffael.

- 1.30 Mae'r adborth a gawsom gan gyrff sy'n aelodau o GCC yn awgrymu y byddent yn hoffi cael opsiwn optio allan mwy hyblyg ar ôl cael gwybod beth yw canlyniad dyfarnu cytundebau'r fframweithiau. Ym mis Medi 2015, bu Bwrdd GCC yn trafod y broses optio allan. Er yn cyfaddef nad oedd y broses yn gweithio, cytunodd y Bwrdd y byddai'r broses optio allan yn aros yn ei lle.
- 1.31 Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn Chwefror 2013¹⁹, nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol pan sefydlwyd Gwasanaeth Masnachol y Goron fod 'gorfodaeth ar adrannau [llywodraeth ganolog] i gydymffurfio â'r dull canolog, ond yn ymarferol nid yw hyn yn cael ei orfodi ac nid oes unrhyw sancsiynau am beidio â chydymffurfio'. Yn fras, mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa gyda GCC er mai'r disgwyliad yn gyffredinol oedd bod gyrff cyhoeddus yn defnyddio GCC yn hytrach na chael gorfodaeth. Dywedodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd 'naill ai y bydd angen i Swyddfa'r Cabinet gryfhau apêl y gwasanaeth, neu bydd angen ennill 'calonnau a meddyliau' a dangos bod gan y gwasanaeth y gallu a'r capasiti i ddarparu swyddogaeth gaffael ganolog o ansawdd uchel'.
- 1.32 Fe wnaethom ofyn i aelodau GCC a oeddent wedi optio allan o gaffael unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu waith drwy fframweithiau GCC ac, yn hytrach, wedi dewis trefniadau cydweithredol eraill, ac eithrio Consortiwm Prynu Addysg Uwch Cymru (HEPCW) neu Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP)²⁰. Dywedodd 23 o'r 66 o gyrff a atebodd y cwestiwn eu bod wedi gwneud hyn. Mae **Blwch 6** yn rhoi rhai o'r rhesymau am beidio â chaffael y gwasanaethau, nwyddau neu'r gwaith oedd ar gael drwy GCC.

19 Swyddfa Archwilio Genedlaethol, **Gwella Caffael y Llywodraeth**, Chwefror 2013

20 Sefydlwyd GCC i weithio ochr yn ochr gyda, nid i gystadlu â, HEPCW a'r NWSSP (paragraff 2).

Blwch 6 – dyfyniadau ar benderfynu peidio â chaffael nwyddau a gwasanaethau drwy GCC

- ‘Oherwydd bod gan y sector Addysg Bellach yn y DU gonsortiw hirsefydlog â Chonsortiw Caffael Crescent²¹ yr ydym wedi bod yn rhan o sefydlu fframweithiau gyda nhw. Mewn rhai achosion mae contractau Masnachol y Goron hefyd wedi bod yn ‘fwy addas i’r pwrpas’
- ‘Rydym eisoes yn defnyddio CPC [Consortiw Caffael Crescent] sy’n addas i faint a phwrpas ein sefydliad’
- ‘Mae sefydliadau eraill wedi gallu cynnig fframweithiau mwy priodol ac amserol. Mae nifer o gynlluniau sydd hefyd ar gael yn lleol i ni’
- ‘Mae fframweithiau eraill yn darparu hyn, hy CCS, Fframwaith Adeiladu Sir Gâr, ESPO²²’
- ‘Ni chafwyd gwerth am arian gan y fframweithiau ac ni allai’r cyflenwyr ar y fframweithiau ddarparu’n ddigon eang yn ddaearyddol, h.y. diffyg cyflenwyr yng ngogledd Cymru i gwrdd â galwadau gwasanaeth’
- ‘Mae fframweithiau [eraill] yn fwy hyblyg’

Ffynhonnell: Arolwg o aelodau GCC gan Swyddfa Archwilio Cymru

21 Mae Consortiw Caffael Crescent wedi’i berchnogi ac yn cael ei redeg gan y sector addysg bellach ar draws y DU.

22 Sefydliad prynu proffesiynol sector cyhoeddus yw ESPO sydd wedi’i gyd-berchnogi gan ei chwe awdurdod lleol: Cyngor Sir Caerlŷr, Cyngor Sir Swydd Lincoln, Cyngor Sir Swydd Caergrawnt, Cyngor Sir Norfolk, Cyngor Sir Swydd Warwick a Chyngor Sir Peterborough.

- 1.33 Dengys data GCC fod aelodau GCC yn 2016-17 wedi gwario £150 miliwn drwy Wasanaeth Masnachol y Goron. Yn ddiweddar, adolygodd GCC y 20 prif fframwaith gan Wasanaeth Masnachol y Goron yn dangos y gwariant uchaf gan gyrff cyhoeddus Cymru gan adnabod £60 miliwn o wariant a allai gael ei ddarparu'n hytrach drwy fframweithiau GCC, hyn i'w ddadansoddi ymhellach. Roedd GCC yn cydnabod nad yw manylebau'r fframweithiau perthnasol efallai'r un fath yn union. Mae GCC yn awr yn ystyried y cyfleoedd hyn fel rhan o ymgynghori'n ehangach ar weithgareddau GCC yn y dyfodol.
- 1.34 Dywedodd cyrff cyhoeddus sy'n defnyddio fframweithiau Gwasanaeth Masnachol y Goron wrthym mai'r prif reswm oedd eu bod yn gallu defnyddio cyflenwr o ddewis, neu sicrhau pris gwell. Dywedodd rai wrthym hefyd eu bod yn defnyddio fframweithiau Gwasanaeth Masnachol y Goron lle na allai cyflenwyr ar fframweithiau GCC ddarparu gwasanaeth da neu i'r fanyleb oedd yn ofynnol.
- 1.35 Yn 2015-16, roedd GCC yn gweithio mewn cydweithrediad â'r CCS i ddefnyddio ei wasanaethau argraffu a reolir ar gyfer awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru tra oedd cytundebau newydd GCC yn cael eu datblygu. Penderfynodd GCC gaffael ei fframwaith ei hun oherwydd nid oedd cytundeb y CCS yn cydymffurfio â datganiad Polisi Caffael Cymru. Y pryder oedd bod y meini prawf cyn-gymhwyso'n ei gwneud yn llai tebygol y defnyddid busnesau bach a chanolig neu fidiau consortia. Ar gais Grŵp Cyflawni GCC, sefydlodd GCC fframwaith Cymru gyfan i roi mwy o amser i fusnesau gael bidio ar y cyd a llwyddodd gonsortiw m o fusnesau bach a chanolig o Gymru i ennill lle ar y fframwaith.

Mae defnydd llai na'r disgwyl o'r fframweithiau wedi cael effaith sylweddol ar incwm GCC gan olygu nad yw'n hunan-gynhaliol ac nad yw eto wedi gallu ad-dalu'r benthyciad buddsoddi-i-arbed a dderbyniodd gan Lywodraeth Cymru tuag at ei sefydlu.

- 1.36 Rhwng 1 Tachwedd 2013 a 31 Mawrth 2016, talwyd am gostau gweithredu GCC gyda benthyciad Buddsoddi-i-Arbed o £5.92 million gan Lywodraeth Cymru. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru a GCC erioed gytuno ar broffil ad-dalu ar gyfer y benthyciad. Roedd GCC wedi bwriadu dechrau ad-dalu drwy'r gwarged y gobeithiai y byddai wedi ei gasglu ynghyd o'r 1 Ebrill 2016 ymlaen.
- 1.37 Byddai GCC yn cynhyrchu incwm drwy godi ad-daliad gorfodol ar gyflenwyr, sydd ar hyn o bryd yn 0.45% o werth y rhan fwyaf o'r nwyddau/gwasanaethau a brynnir gan gyrff cyhoeddus drwy gytundebau GCC. Mae cynhyrchu incwm drwy wneud hyn yn arferol yn y rhan fwyaf o gonsortia caffael a chyrrff prynu cyhoeddus²³.
- 1.38 Hyd yma nid yw GCC wedi cynhyrchu digon o incwm drwy'r ad-daliad a godir ar gyflenwyr i dalu am ei gostau gweithredu hyd yn oed (Ffigwr 5). Yn 2015-16, cynhyrchodd GCC incwm o ddim ond £339,143 o'i gymharu â chostau gweithredu o £2.1 miliwn. Dengys ffigurau dangosol am 2016-17 fod ei incwm wedi codi i £0.9 miliwn o'i gymharu â chostau gweithredu o £2.8 miliwn. Mae'r incwm llai na'r disgwyl yn rhannol oherwydd bod GCC wedi cymryd drosodd ac yn rheoli fframweithiau gan gonsortia eraill heb ad-daliad tan y gallai GCC osod cytundebau caffael newydd. Ar ôl gwario'r benthyciad buddsoddi-i-arbed i gyd yn 2015-16, defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru i gwrdd â'r diffyg ariannol yn 2016-17, sefyllfa fydd yn parhau tan ddiwedd 2017-18 o leiaf.

23 Er nid dyma'r model a ddefnyddir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru; cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru sy'n talu am eu costau gweithredu hwy. Ychwaith, nid oedd y contractau fframwaith a etifeddodd GCC yn cynnwys codi ad-daliad ar gyflenwyr, er bod hwn bellach yn cael ei godi wrth i GCC sefydlu contractau newydd yn eu lle.

Ffigwr 4: incwm a Gwariant GCC, 2013-14 tan 2016-17

	Costau (£ miliynau)	Incwm (£ miliynau)	Incwm (£ miliynau)	Incwm (£ miliynau)
	Costau gweithredu	Ad-daliad cyflenwyr	Benthyciad Buddsoddi-i- Arbed	Cronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru
2013-14	1.1	0	1.2	
2014-15	2.7	0.04	2.6	0.06
2015-16	2.4	0.3	2.1	-
2016-17	2.8	0.9	-	2

Ffynhonnell: GCC

1.39 Mae Bwrdd GCC a Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod ariannu GCC yn broblem ac wedi trafod nifer o opsiynau ar gyfer ei datrys. Fodd bynnag, nid yw'r un ohonynt yn cynnig ateb uniongyrchol i'r broblem o gael mwy o gyrff cyhoeddus i ddefnyddio fframweithiau GCC. Mae'r opsiynau a ystyriwyd yn cynnwys:

- dileu'r benthyciad buddsoddi-i-arbed;
- ystyried newid y dull o ariannu GCC, drwy ei ariannu'n uniongyrchol o gyllideb Llywodraeth Cymru er enghraifft; a
- cynyddu'r ad-daliad gorfodol a godir ar gyflenwyr, oherwydd mae'n glir nad yw'r gyfradd o 0.45% ar hyn o bryd yn ddigon i gynhyrchu digon o incwm i wneud GCC yn hunan-gynhaliol.

1.40 Roedd Bwrdd GCC yn bryderus y gallai cynyddu'r ad-daliad atal cyflenwyr rhag bidio am contractau ond erbyn hyn mae wedi cytuno i ad-daliad o hyd at 1.5% lle bo hynny'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o'r fframweithiau'n aros ar 0.45% oherwydd bod y penderfyniad i ganiatáu ad-daliad uwch wedi'i wneud ar ôl i'r rhan fwyaf o'r fframweithiau presennol gael eu gosod. Mae sefydliadau prynu cyhoeddus eraill fel Gwasanaeth Masnachol y Goron a Sefydliad Prynu Swydd Efrog yn amrywio'r ad-daliad a godir ar gyflenwyr rhwng 2-6% gan ddibynnu ar y cytundeb. Byddai codi ad-daliad o 2% ar yr holl wariant drwy GCC yn 2016-17 wedi cynhyrchu incwm o £4.7 miliwn. I GCC fod wedi adennill ei gostau yn 2016-17, byddai wedi bod angen codi ad-daliad o tua 1.2% ar y gwariant i gyd, neu byddai wedi bod angen gwariant o tua £622 miliwn gydag ad-daliad o 0.45%.

1.41 Gyda thystiolaeth o gynnydd pellach mewn gwariant drwy fframweithiau GCC yn ystod hanner cyntaf 2017-18 ([paragraff 1.16](#)), a mwy o fframweithiau bellach lle codir ad-daliad ar y cyflenwyr, disgwylir i GCC gynhyrchu incwm o £1 miliwn o leiaf yn 2017-18. Yr arwyddion cynnar yw y cynhyrchir mwy o incwm na hyn, ar sail yr incwm o £0.5 miliwn sydd wedi'i nodi ar gyfer chwarter cyntaf 2017-18. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi cytuno mewn egwyddor y bydd cronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru unwaith eto'n cwrdd ag unrhyw ddiffyg yng nghostau gweithredu GCC.

Mae GCC wedi adrodd y bydd ei arbedion caffael ac ariannol yn creu manteision ehangach i economi Cymru ond mae'r ffigurau arbedion yn llai na'r disgwyl

1.42 Un o amcanion allweddol GCC yw darparu arbedion ariannol i gyrff cyhoeddus wrth brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Roedd yr achos busnes dros sefydlu GCC yn cynnig y gallai gyrff cyhoeddus wneud arbedion posib o £98 miliwn dros bum mlynedd, ynghyd â manteision eraill. Roedd yr achos busnes yn amcangyfrif, pan fyddai GCC yn llwyr weithredol erbyn 1 Ebrill 2016, y byddai'n dechrau gwneud arbedion o hyd at £25 miliwn y flwyddyn, a manteision eraill,²⁴ o wariant targed o £522 miliwn. Mae'n glir bod yr amcangyfrifon hyn, a rhai eraill mwy diweddar, wedi biliwnod yn rhy uchelgeisiol (Ffigwr 5). Er hynny, yn ôl adroddiadau gan GCC mae'r arbedion i gyrff cyhoeddus wedi bod yn fwy na chostau gweithredu'r gwasanaeth.

²⁴ Roedd yr achos busnes yn amcangyfrif y byddai £9 miliwn (36%) o'r £25 miliwn yn 'arbedion rhyddhau arian parod' (Ffigwr 7).

Ffigwr 5: rhagolygon/targedau arbedion GCC ac arbedion a adroddwyd, Tachwedd 2013 tan 2018-19

	Tachwedd 2013 tan Fawrth 2015 (£ miliynau)	2014-15 (£ miliynau)	2015-16 (£ miliynau)	2016-17 (£ miliynau)	2017-18 (£ miliynau)	2018-19 (£ miliynau)
Achos busnes 2012 (rhagolwg)	-	4	19	25	25	25
Papur Bwrdd GCC, Mehefin 2014 (rhagolwg)	-	15	15	13		
Cofnodion Bwrdd GCC, Hydref 2014 (targed)	-	-	-	-	30	39
Cynllun busnes, Mai 2015 (rhagolwg)	-	-	8.5	-	-	-
Arbedion a adroddwyd	1.5	7.9	12.6	14.8	-	-

Dalier sylw:

Mae arbedion GCC yn cynnwys tri chategori: (1) arbedion rhyddhau arian parod – gweithgareddau caffael sy'n arwain at ryddhau arian parod o gyllidebau sydd fel arfer yn seiliedig ar leihau cost nwyddau neu wasanaethau drwy weithgareddau masnachol; (2) osgoi costau – osgoi gwariant efallai o ganlyniad i reoli'r galw, neu drwy negodi i beidio â chodi prisiau er mwyn cadw'r prisiau ar eu lefel bresennol; a (3) effeithlonrwydd proses – lleihau'r ymdrech a wneir drwy gaffael, yn enwedig lle mae hyn yn rhyddhau adnoddau ar gyfer gweithgareddau eraill.

Ffynhonnell: GCC

- 1.43 Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant drwy GCC wedi bod drwy gyrff cyhoeddus unigol yn defnyddio mini-gystadlaethau ar fframweithiau aml-gyflenwr, yn hytrach na'n cyfuno eu pŵer i brynu er mwyn creu un contract gyda nifer o sefydliadau. Er bod gan fini-gystadlaethau ar fframweithiau aml-gyflenwr eu manteision, mae'n llai tebygol o greu arbedion ariannol na phan fydd sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu manyleb gyffredin am waith, nwyddau neu wasanaethau ac yna'n ymrwymo i brynu lleiafswm o'r rhain. Rydym yn cydnabod nad yw'r math yma o drefniant yn ymarferol bob tro.
- 1.44 Roedd cyfanswm yr arbedion a adroddwyd gan GCC ar gyfer 2014-15 sef £7.9 miliwn bron yn ddwywaith faint oedd wedi'i dargedu yn achos busnes 2012 ar gyfer sefydlu'r gwasanaeth ond yn llawer is na'r £15 miliwn oedd wedi'i ragweld gan GCC nes ymlaen ym Mehefin 2014. Fodd bynnag roedd ffigwr rhagolwg Mehefin 2014 yn seiliedig ar ragdybio gwariant o £1.4 biliwn drwy GCC.
- 1.45 Roedd cynllun busnes Mai 2015 GCC wedi rhagweld cyfanswm arbedion o £8.5 miliwn o leiaf ar gyfer 2015-16, ar sail isafswm gwariant o £1.1 biliwn. Roedd arbedion gwirioneddol GCC o £12.6 miliwn yn fwy na'r rhagolygon yn y cynllun busnes. Mae'r arbedion a adroddwyd gan GCC yn 8.5% o holl wariant GCC sy'n fwy na'r targed yng nghynllun busnes 2015 i ddarparu arbedion gwerth o leiaf 3% o'r holl wariant a reolir gan GCC. Er bod y ffigurau hyn yn cynnwys arbedion o fframweithiau etifeddol, dim ond arbedion yn erbyn prisiau is wedi eu hailnegodi ar gyfer fframweithiau etifeddol y mae GCC yn eu hadrodd, neu gan ddefnyddwyr newydd y fframweithiau hyn²⁵.
- 1.46 Y sefyllfa erbyn Awst 2017 oedd bod GCC wedi adrodd cyfanswm arbedion o £14.8 miliwn am 2016-17 (6% o'r holl wariant a reolir gan GCC). Er nad oedd cynllun busnes 2015 wedi rhagweld cyfanswm arbedion am 2016-17, roedd amcangyfrifon GCC o fis Mehefin 2014 wedi rhagweld cyfanswm arbedion o £13 miliwn, ond yn erbyn gwariant o £1.5

25 Gwaith Grŵp Cyflawni GCC yw sicrhau bod cynlluniau arbedion yn gadarn a chyraeddadwy. Fodd bynnag, er bod y Grŵp yn trafod arbedion, nid oes ganddo rôl ffurfiol mewn monitro perfformiad yn gyffredinol.

biliwn.

- 1.47 Mae rhai aelodau wedi anghytuno â'r ffigur arbedion a adroddwyd gan GCC. Ar gais Cyfarwyddwr GCC, mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru ddwywaith wedi adolygu effeithiolrwydd y prosesau a ddefnyddiwyd i adnabod a dilysu arbedion yn gysylltiedig â GCC. Edrychodd yr adolygiad diwethaf ar arbedion 2015-16. Cafwyd sicrwydd rhesymol gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru ar y mesurau rheoli oedd yn eu lle.
- 1.48 Roedd adolygiad o arbedion 2015-16 wedi nodi pryder nad oedd cyflenwyr bob amser yn cyflwyno data gwariant misol i GCC gyda'r risg o ganlyniad nad yw GCC yn gallu dilysu'r gwariant na'r arbedion. Nododd hefyd nad oedd y ffigur arbedion a adroddwyd yn ystyried sefyllfaoedd lle'r oedd contractau unigol neu lotiau ar fframwaith penodol wedi profi cynnydd mewn prisiau o'i gymharu â'r trefniadau blaenorol²⁶. Roedd yr adolygiad wedi annog GCC i wella ei gofnodion tystiolaeth ar gyfer cyfrifo arbedion. Derbyniodd GCC ganfyddiadau'r adroddiad ac roedd eisoes yn cymryd camau yn 2016-17 i roi sylw i rai o'r materion a godwyd.
- 1.49 Mewn ymateb i'n harolwg yn 2016, dim ond 19% o aelodau GCC a gytunodd fod defnyddio GCC yn arwain at arbedion arian parod (a neb yn cytuno'n gryf). Ar y cyfan, roedd 48% o sefydliadau wedi anghytuno gan gynnwys chwe awdurdod lleol a phob un o gyrff y GIG heblaw am un. Nid oedd y gweddill yn cytuno na'n anghytuno.
- 1.50 Dangosodd ein harolwg a'n cyfweiliadau ôl-ddilynol beth o'r anfodlonrwydd â'r ffigur arbedion a adroddwyd gan GCC. Roedd y prif bryderon yn ymwneud â'r materion canlynol:
- er bod rhai fframweithiau a chytundebau wedi creu arbedion, roeddent wedi eu gwrthbwyso gan eraill oedd yn ddrytach, ac mae rhai awdurdodau lleol wedi meincnodi prisiau GCC a chanfod y gallent wneud arbedion drwy ddefnyddio cyflenwyr lleol mewn rhai achosion;
 - mae lefel yr arbedion wedi bod yn llai na'r disgwyl; a
 - nid oedd yr arbedion wedi eu hadlewyrchu yn elw net aelodau GCC – er enghraifft, nid oedd rhai cyfarwyddwyr cyllid yn hyderus i ddefnyddio arbedion drwy GCC ar gyfer cynllunio ariannol cadarn oherwydd bod yr arbedion yn cael eu hadrodd gan gyflenwyr heb unrhyw dystiolaeth ategol.

26 Roedd adroddiad yr Archwilad Mewnol, o'r sampl o saith fframwaith, wedi rhoi enghraifft y Fframwaith Halen Craig oedd wedi adrodd cyfanswm arbedion o £4,151 ar draws saith o lotiau. Dywedodd yr adroddiad fod yr arbediad ond yn berthnasol i un lot penodol yn y fframwaith lle'r oedd GCC wedi nodi gostyngiad mewn prisiau o'i gymharu â fframwaith blaenorol. Fodd bynnag, nid oedd GCC wedi ystyried y cynnydd mewn prisiau ar gyfer lotiau eraill. Pe bai'r lotiau eraill wedi cael eu hystyried, byddai'r sefyllfa gyffredinol wedi bod yn gost net uwch o £1,571.

- 1.51 Wrth ymateb, cyfeiriodd GCC at enghreifftiau lle nad oedd y cymariaethau meincnod a wnaed gan gyrff cyhoeddus yn cymharu prisiau cyfredol. Pwysleisiodd hefyd fod prosesau bellach yn eu lle sy'n darparu ffigurau arbedion i aelodau GCC gyda chyfle i ofyn unrhyw gwestiwn yn eu cylch.
- 1.52 Mae GCC hefyd yn adrodd ar y manteision ehangach. Mae'r manteision ehangach hyn yn cynnwys creu gwaith yng Nghymru drwy ei fframweithiau, defnyddio cyflenwyr o Gymru a manteision eraill i economi'r wlad (**Blwch 7**).
- 1.53 Wrth ddatblygu ei weithgareddau caffael mae GCC wedi cymryd camau i sicrhau nad yw ei ddulliau'n cyflwyno rhwystrau i gwmnïau yng Nghymru.

Blwch 7 – y manteision ehangach a adroddwyd gan GCC

217 o swyddi wedi eu creu ers sefydlu GCC.

Gwariant uniongyrchol o £64 miliwn gyda chyflenwyr o Gymru yn 2016-17, £44 miliwn ohono drwy fusnesau bach a chanolig a leolir yng Nghymru.

£36 miliwn wedi'i ailfuddsoddi yn economi Cymru ers ei sefydlu²⁷.

Dyma oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2017:

- o'r 729 o gyflenwyr ar fframweithiau GCC, roedd 355 (49%) wedi eu lleoli yng Nghymru; a
- roedd 292 o'r 729 o gyflenwyr yn fusnesau bach a chanolig wedi eu lleoli yng Nghymru (40%).

Dalier sylw:

Mae GCC wedi darparu ffigurau mwy diweddar i ni ar gyfer nifer o'r mesurau a adroddir uchod ers ein hadroddiad ar **Gaffael Cyhoeddus yng Nghymru** yn Hydref 2017.

Ffynhonnell: GCC

Er enghraifft, rhannwyd Fframwaith Gwasanaethau Argraffu Cymru Gyfan yn 40 o gontractau unigol, o fewn 13 o lotiau ar draws amrywiol barthau rhanbarthol oedd yn arbennig o ddeniadol i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Arweiniodd y broses gaffael at ddyfarnu 24 o'r 40 o gontractau i fusnesau bach a chanolig a leolir yng Nghymru. Roedd y Fframwaith Teiars a Gwasanaethau Cysylltiedig yn caniatáu bidiau consortiwm. Mae'r fframwaith yn cynnwys chwech o fusnesau bach a chanolig o Gymru ar draws pedwar lot rhanbarthol. Roedd **paragraff 1.35** yn nodi bod consortiwm o fusnesau bach a chanolig o Gymru hefyd wedi ennill lle ar

²⁷ Ar sail cyfrifiad gan Ffederasiwn Busnesau Bach: am bob £1 sy'n cael ei gwario gyda chyflenwr a leolir yng Nghymru, mae £0.63 ar gyfer busnesau bach a chanolig, a £0.40 ar gyfer busnesau heb fod yn rhai bach a chanolig, yn dod yn ôl i economi Cymru. Ffederasiwn y Busnesau Bach, **Making the most of small business, one year on**, 2013.

fframwaith Gwasanaethau Argraffu GCC.

Er bod y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn cefnogi GCC mewn egwyddor, dim ond traean o'r aelodau oedd yn fodlon â'r gwasanaeth ac roedd pryderon ynghylch pa mor gystadleuol oedd y fframweithiau, gwireddu'r manteision ehangach a gallu cwrdd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

- 1.54 Cawsom fod cefnogaeth yn gyffredinol i GCC mewn egwyddor o ran yr amcanion cyffredinol, yn enwedig bod angen mwy o gydweithrediad drwy 'brynu unwaith i Gymru' i yrru arbedion ariannol. Fodd bynnag, roedd pryderon am berfformiad GCC.
- 1.55 At ei gilydd, dim ond traean o aelodau GCC a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a gawsant gan GCC²⁸. Ni ddywedodd unrhyw un o gyrff y GIG eu bod yn fodlon a dywedodd lai na thraean o awdurdodau lleol eu bod yn fodlon. Roedd Llywodraeth Cymru'n anfodlon â'r gwasanaeth gan GCC er mai nhw yw'r corff sy'n trefnu. Fodd bynnag, ac eithrio un corff, roedd pob un o'r gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru'n fodlon. O ystyried aelodaeth amrywiol GCC, gallai bodloni'r holl sefydliadau ar unrhyw adeg neilltuol fod yn anodd. Fodd bynnag, mae llwyddiant GCC yn y pen draw'n dibynnu ar sicrhau bod gan gyrff cyhoeddus hyder yn ei drefniadau contractio ac yn eu defnyddio. Mae GCC yn credu bod y camau a gymerwyd dros y 12 mis diwethaf wedi ateb rhai o'r pryderon hyn, er na chyflawnodd unrhyw arolwg boddhad cwsmeriaid penodol ei hun.
- 1.56 Dywedodd rai awdurdodau lleol wrthym fod y gwasanaeth a gawsant gan gyn Gonsortium Prynu Cymru yn fwy addas i'w hanghenion oherwydd ei fod yn fwy sector-benodol. Fodd bynnag, roedd rhai gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru'n fwy cadarnhaol am GCC oherwydd nad oeddent wedi defnyddio corff prynu cyhoeddus o'r blaen ac yn gweld manteision, yn enwedig prisiau is. Er hynny, mae pryderon gan aelodau GCC ynghylch pa mor gystadleuol yw fframweithiau GCC o ran cynnig prisiau is (**paragraff 1.50**) yn un o'r prif resymau am eu hanfodlonrwydd. Clywsom am enghreifftiau lle'r oedd prisiau fframweithiau GCC yn ddrytach na rhai gan gyflenwyr lleol (**Astudiaeth achos 4**).

28 Roedd 44% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn ein harolwg yn anfodlon, a 23% wedi ateb 'ddim yn gwybod'.know'.

Astudiaeth achos 4 – cymharu prisiau fframweithiau GCC â phrisiau cyflenwyr lleol neu fframweithiau eraill

Roedd Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ddinbych wedi profi prisiau rhai nwyddau, gwasanaethau a gwaith oedd ar gael drwy fframweithiau GCC.

Roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi profi 14 o fframweithiau ac roedd GCC yn 2015-16 wedi cynnig prisiau gwell mewn wyth achos, ond llwyddodd y Cyngor i gael prisiau gwell yn lleol neu drwy fframweithiau eraill mewn chwe achos.

Roedd Cyngor Sir y Fflint wedi profi 12 o fframweithiau ac roedd GCC yn 2015-16 wedi cynnig prisiau gwell mewn chwe achos, ond llwyddodd y Cyngor i gael prisiau gwell yn lleol neu drwy fframweithiau eraill mewn chwe achos.


Cynigiodd GCC weithio gyda'r ddau gyngor i gyflawni ymarfer meincnodi ond nid yw'r cynghorau wedi darparu'r wybodaeth i GCC i hwyluso hyn.

Dewisodd Gyngor Sir Ynys Môn optio allan o ddefnyddio fframwaith GCC i Gyflenwi Tanwyddau Hylif. Ar ôl meincnodi prisiau droeon a chynnal cyfarfodydd â staff GCC, roedd y Cyngor wedi darganfod y gallai brynu'n rhatach drwy gyflenwyr lleol. Mae GCC o'r farn bod y rhan fwyaf o'r pris tanwydd (97%) wedi'i bennu gan fynegai prisiau ar draws y farchnad. Mae'r cystadlu'n ymwneud â'r ffioedd gweinyddol o hyd at 3%.

1.57 Mae Ffigwr 6 yn dangos barn yr aelodau am effaith caffael drwy GCC, ac yn helpu i egluro'r lefelau bodlonrwydd ymhellach. Yn ogystal â phrisiau, roedd gan gyfran helaeth o'r aelodau farn negyddol am faterion eraill. Lleisiodd yr aelodau bryderon hefyd drwy'r arolwg a'r cyfweiliadau ôl-ddilynol am faterion penodol, gan gynnwys:

- faint o amser a gymrodd i sefydlu rhai o'r fframweithiau (er enghraifft bwyd a glanhau adeiladau) sydd wedi golygu bod rhai sefydliadau wedi gorfod ymestyn eu contractau presennol y tu hwnt i'w terfynau amser cyfreithiol;
- faint o amser y mae'n ei gymryd i gyflawni'r mini-gystadlaethau unwaith y mae'r fframweithiau wedi eu sefydlu;
- i ba raddau y gellir cyflawni manylebau sefydliadol unigol o dan rai fframweithiau gan GCC, yn enwedig lle mae angen gwasanaethau neu nwyddau mwy pwrpasol neu arbenigol;
- bod rhai o fframweithiau GCC wedi eu gor-fanylu; a
- mai ychydig iawn sy'n cael ei wneud gan GCC i gychwyn neu annog cyd-fanylebau neu gyd-fini-gystadlaethau.

Ffigwr 6: Barn aelodau GCC am effaith caffael drwy GCC



Dalier sylw:

Y gwahaniaeth rhwng y rhai sy'n anghytuno a'r rhai sy'n cytuno yw'r cyrff cyhoeddus a atebodd 'ddim yn cytuno na'n anghytuno'.

Ffynhonnell: Arolwg o aelodau GCC gan Swyddfa Archwilio Cymru

- 1.58 Mewn ymateb i farn aelodau am effaith caffael drwy GCC, ac i wneud pethau'n fwy hyblyg, mae GCC wedi ymrwymo i sicrhau bod gan fwy o fframweithiau opsiynau dyfarnu uniongyrchol yn hytrach na gorfod cynnal mini-gystadleuaeth. Mae GCC hefyd wedi sefydlu rhaglen barhaus o gymorth i gwsmeriaid lle mae angen mini-gystadlaethau ac wedi darparu mini-gystadlaethau cydweithredol ar draws nifer o'i gategorïau.
- 1.59 Cawsom fod awdurdodau lleol yn arbennig o bryderus ynghylch gallu cefnogi'r economi leol drwy fframweithiau GCC (**Blwch 8 ac Astudiaeth achos 5**). Mewn ymateb i'n harolwg, dim ond 10% o aelodau GCC a gytunodd fod defnyddio GCC wedi arwain at ddefnyddio mwy o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, gyda bron i 50% yn anghytuno a'r gweddill ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Yn Ebrill 2017, roedd GCC wedi adrodd bod 270 (39%) o'r cyflenwyr ar ei fframweithiau'n fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Mae GCC hefyd yn credu bod nifer sylweddol o'r busnesau hyn yn darparu nwyddau, gwasanaethau a gwaith drwy ei fframweithiau fel isgcontractwyr, er nad yw'n gallu mesur hyn. Er bod GCC wedi cymryd camau i leihau'r rhwystrau i gyflenwyr lleol fod yn ennill lle ar ei fframweithiau, mae canfyddiadau ein harolwg yn awgrymu naill ai y gallai dulliau GCC fod yn fwy effeithiol neu fod angen i GCC wneud ei aelodau'n fwy ymwybodol o'r darpariaethau a wneir ganddo.

Blwch 8 – dyfyniadau ar gefnogi'r economi leol a defnyddio GCC

- 'Ymddengys nad oes llawer o sensitifrwydd o gwbl i anghenion lleol/yr economi leol ynghyd ag ymgyrch "un esgid i ffitio pawb"
- 'Gallwn fod yn talu mwy am safon/ansawdd nad yw'n ateb ein hanghenion yn llwyr ac sydd hefyd yn andwyol i'n heconomi leol'
- 'Mae Consortia eraill wedi llwyddo i ddatblygu trefniadau priodol nad ydynt yn bygwth ein heconomi leol nac Economi Cymru'
- 'Mae Aelodau Etholedig yn bryderus iawn am yr effaith ar yr Economi Leol ac yn siomedig gyda'r diffyg manteision clir er gwaetha'r bygythiad i'r economi'
- 'Ar adegau mae gan GCC flaenoriaethau sy'n tynnu'n groes i'w gilydd lle mae rhai sectorau dan bwysau i fodloni cyflenwyr lleol ar draul cynnig gwerth am arian'

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o aelodau GCC

Astudiaeth achos 5 – Dull Cyngor Sir Gâr o ymdrin â fframweithiau bwyd GCC

Yn Awst 2016 dywedodd Gyngor Sir Gâr wrth GCC ei fod am optio allan o'r fframweithiau bwyd oedd ar fin cael eu cyflwyno drwy GCC. Roedd y Cyngor yn poeni'n arbennig y byddai'r fframweithiau bwyd yn ymestyn dros Gymru gyfan ac er bod cwmnïau lleol neu ranbarthol yn gallu cystadlu yn eu hardaloedd, eu bod yn annhebygol o gystadlu ar draws Cymru. Er bod Fforwm Categoriâu GCC wedi rhannu'r categorïau bwyd yn lotiau rhanbarthol, roedd gan y Cyngor bryderon o hyd am yr effaith ar gyflenwyr lleol. Er enghraifft, roedd y lot ar gyfer Bwydydd Groser, Darpariaethau a Bwydydd Rhewedig ar gyfer Sir Gâr a Sir Benfro. Pan anfonwyd y llythyr, roedd cwmni lleol yn cyflenwi'r Cyngor a enillodd y busnes yn erbyn cystadleuaeth genedlaethol ac roedd y Cyngor yn deall bod y sefyllfa'n un debyg yn Sir Benfro.

Dywedodd y Cyngor ei fod yn poeni bod y strategaeth lotiau a sefydlwyd gan GCC yn gwarantu y byddai naill ai'r ddau gwmni, neu un ohonynt, yn colli busnes oherwydd y byddai GCC yn dewis dim ond un cyflenwr ar gyfer y parth daearyddol hwn. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, diwygiwyd y strategaeth arfaethedig i adlewyrchu'r pryderon am yr economi leol ar ôl i Grŵp Cyflawni GCC ystyried hyn ymhellach ac mae'r Cyngor wedi'i enwi fel lot ar wahân ar gyfer pump o'r categorïau bwyd. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adolygu canlyniadau'r fframwaith ac yn ystyried y ffordd orau ymlaen o gaffael nwyddau yn y categorïau hyn.

Mae rhai cyrff cyhoeddus yn poeni nad yw GCC yn ddigon annibynnol i Lywodraeth Cymru

- 1.60 Roedd ein harolwg o aelodau GCC wedi nodi pryderon ynghylch eglurder rôl Llywodraeth Cymru o ran ei pherthynas gyda GCC. Y model gweithredu presennol ar gyfer GCC yw ei fod yn cael ei 'drefnu' gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr opsiwn a ffafriwyd yn achos busnes 2012 yn nodi mai corff cyhoeddus a fyddai'n trefnu GCC. Un o seiliau'r model cyflawni a ffafriwyd oedd y byddai GCC yn annibynnol o weithrediad y sefydliad a fyddai'n ei drefnu, ac y byddai gan y gwasanaeth ei strwythur llywodraethu ei hun gan gynnwys cynrychiolaeth briodol o bob sector. Byddai GCC yn gyfrifol i Fwrdd GCC ac yn gweithredu fel endid annibynnol wedi'i lywodraethu drwy ei strwythur arweinyddiaeth a gweithredol ei hun. Byddai'r sefydliad a fyddai'n trefnu GCC yn darparu'r cyfleusterau, y gyflogaeth a'r mentora proffesiynol angenrheidiol.

- 1.61 Er i GCC gael ei sefydlu ar sail y model hwn, mae rhai aelodau wedi bod yn bryderon bod y berthynas rhwng GCC a Llywodraeth Cymru wedi datblygu i fod yn fwy na pherthynas drefniadol ac y bydd GCC yn dod yn un o adrannau'r llywodraeth. Mae rhai o'r pryderon hyn yn seiliedig ar y ffaith mai Cyfarwyddwr Masnachol Llywodraeth Cymru yw Cyfarwyddwr GCC hefyd ac mai Pennaeth Caffael Llywodraeth Cymru yw Cadeirydd Bwrdd Cyflawni GCC²⁹. Rhestrir GCC fel rhan o Lywodraeth Cymru ar siart sefydliadol Llywodraeth Cymru ac mae gan Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol gyfrifoldeb ychwanegol amdano fel swyddog cyfrifyddu. Fel y nodir ym mharagraff 1.5, nid oes gan GCC ei swyddogaeth gyllid ei hun mwyach.
- 1.62 Roedd uwch-swyddogion GCC o'r farn y byddai gweithredu gyda mwy o hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru wedi rhoi mwy o ryddid i'w gweithgareddau caffael ac wrth recriwtio staff allweddol. Maen nhw wedi nodi y gallai hefyd fod wedi annog mwy o gyrff cyhoeddus i ddewis defnyddio fframweithiau GCC.
- 1.63 Er bod gan GCC Fwrdd o swyddogion sy'n cynrychioli ei randdeiliaid allweddol, tynnodd rai o'r gyrff sy'n aelodau sylw at y ffaith mai dim ond un aelod annibynnol oedd ar y Bwrdd, sef cyn Gadeirydd y Bwrdd, oedd yn benodiad cyhoeddus yn Chwefror 2014³⁰. Oherwydd bod GCC yn cael ei drefnu gan Lywodraeth Cymru, nid yw'n cael ei graffu'n annibynnol a rheolaidd drwy ei bwyllgor archwilio ei hun, er enghraifft. Fodd bynnag, mae Cyfarwyddwr GCC wedi gofyn i Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru gyflawni adolygiadau o'r arbedion a adroddir gan y gwasanaeth (paragraff 1.5).
- 1.64 Un o'r prif bryderon sydd gan aelodau GCC yw bod cydbwysedd ei ffocws ar faterion cenedlaethol yn hytrach na blaenoriaethau lleol. Clywsom hefyd fod aelodau'n poeni bod gan Lywodraeth Cymru fwy o ddylanwad dros faterion ariannol, fel ariannu GCC, na'r sefydliadau eraill sy'n aelodau. Ym mis Medi 2017, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol fod Llywodraeth Cymru'n bwriadu ailwampio rôl GCC a rôl Gwerth Cymru i sicrhau'r manteision mwyaf posib o gaffael cyhoeddus.

29 Fodd bynnag, roedd Cadeirydd Bwrdd Cyflawni GCC wedi cael ei benodi i'r rôl honno cyn dechrau yn ei swydd yn Llywodraeth Cymru yn yr haf 2016, ar ôl bod yn Bennaeth Caffael gyda Cyfoeth Naturiol Cymru cyn hynny.

30 Gadawodd Cadeirydd Bwrdd GCC ei swydd yn Chwefror 2017 pan ddaeth ei dair blynedd i ben. Nid oes Cadeirydd newydd wedi'i benodi tra bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu ei chynlluniau i uno Bwrdd GCC â'r Bwrdd Caffael Cenedlaethol (paragraff 4).

Atodiadau



Atodiad 1 – Dulliau archwilio

Sgôp cyffredinol ein gwaith

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn ymlaen o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar **Gaffael Cyhoeddus yng Nghymru** ym mis Hydref 2017. Roedd yr adroddiad hwnnw'n gosod allan y cyd-destun rheoleiddio a pholisi ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru. Roedd yn ystyried i ba raddau oedd cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n gwario drwy gaffael, ac ar ba nwyddau, gwasanaethau a gwaith, gan gynnwys drwy'r prif gonsortia caffael a chyrrff prynu cyhoeddus yng Nghymru. Edrychodd yr adroddiad hefyd ar sut y mae cyrff cyhoeddus unigol yn perfformio a sut y mae eu trefniadau caffael yn datblygu yng nghyd-destun newidiadau polisi a deddfwriaethol.

Yng nghamau cynnar yr adolygiad ehangach hwnnw, lleisiodd rai cyrff cyhoeddus bryderon penodol am ddatblygiad a pherfformiad y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC). Mae'r adroddiad hwn yn ystyried materion yn ymwneud â GCC yn fwy manwl.

Mae gan GCC 73 o gyrff sy'n aelodau. Y cyrff hyn yw'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, 14 o sefydliadau addysg bellach, naw o sefydliadau addysg uwch, naw o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, deg o gyrff y GIG, pedwar awdurdod heddlu, tri awdurdod tân ac achub, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Llywodraeth Cymru.

Arolwg o aelodau GCC

Rhwng Mehefin a Medi 2016 holwyd y 73 o gyrff sy'n aelodau o GCC drwy arolwg, a derbyn ymateb o 97%. O ran GCC, roeddem yn holi barn cyrff cyhoeddus am:

- pa wahaniaeth a wnaeth defnyddio GCC i brynu cyrff cyhoeddus;
- y penderfyniadau o ran optio allan o ddefnyddio GCC; a
- defnyddio trefniadau caffael cydweithredol eraill.

Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Chofrestrfa Prifysgol Cymru'n aelodau o GCC ond penderfynodd y ddau gorff beidio â chymryd rhan yn ein harolwg oherwydd bod eu gwariant ar gaffael yn fach iawn ac ni wnaethant ddefnyddio fframweithiau GCC yn 2015-16.

Lle'r oedd angen i egluro ymatebion a chasglu mwy o wybodaeth ac astudiaethau achos, cafodd yr arolwg ei ôl-ddilyn drwy e-byst, galwadau ffôn neu gyfweiliadau wyneb yn wyneb. Roeddem wedi holi barn y Bwrdd Caffael Cenedlaethol am ddyluniad yr arolwg a thrafodwyd canfyddiadau'r arolwg gyda'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2016.

Dadansoddiad o'r data caffael ar gyfer consortia a chyrff prynu cyhoeddus

Fe wnaethom ddadansoddi'r data a gawsom gan GCC ar ddefnyddio, a'r gwariant a wnaed drwy, ei gytundebau fframwaith yn 2014-15, 2015-16 a 2016-17. Mae cyflenwyr yn darparu'r data hwn i GCC yn fisol. Ystyriwyd hefyd ddata a adroddwyd gan GCC ar yr arbedion ariannol a'r manteision eraill o gaffael drwyddo.

Cyfweliadau

Cawsom gyfarfod ag unigolion yn cynrychioli'r amrywiol sefydliadau, gan gynnwys:

- Llywodraeth Cymru a GCC;
- CBI Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a Ffederasiwn y Cyflogwyr Peirianeg (EEF); a
- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Adolygiad o'r llenyddiaeth

I oleuo ein gwaith, fe wnaethom adolygu ystod o adroddiadau archwilio a chraffu eraill ar gaffael cyhoeddus, gan gynnwys:

- Swyddfa Archwilio Genedlaethol, **Gwasanaeth Masnachol y Goron**, Rhagfyr 2016.
- Swyddfa Archwilio Genedlaethol, **Gwella Caffael y Llywodraeth**, Chwefror 2013.
- Y Comisiwn Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, **Adolygiad o gaffael ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus**, Mai 2010.
- Adroddiadau Archwiliadau Mewnol Llywodraeth Cymru.

Casglodd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar **Wasanaeth Masnachol y Goron** (Rhagfyr 2016) nad yw'n bosib dangos bod Gwasanaeth Masnachol y Goron (CCS) wedi cyflawni mwy nag y byddai adrannau wedi ei gyflawni fel arall drwy brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith cyffredin eu hunain. Lluniodd yr adroddiad nifer o gasgliadau eraill hefyd sydd, yn fras, yn adlewyrchu materion perthnasol i ddatblygiad GCC yr ydym wedi adrodd arnynt ein hunain. Er enghraifft, casglodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol:

- bod Swyddfa'r Cabinet wedi synied yn llawer rhy isel am ba mor anodd fyddai gweithredu prynu ar y cyd ar draws llywodraeth;
- ers i'r CCS gael ei sefydlu, roedd erydiad cyflym wedi bod yn hyder adrannau yn y CCS a dengys arolwg o'r CCS fod 6 allan o 10 o gwsmeriaid yn fodlon â gwasanaeth y CCS;
- dylai prynu'n ganolog greu arbedion sylweddol iawn, ond nid yw'n glir pa wariant yn union y dylid ei ganoli;
- mae'r ddadl strategol dros brynu ar y cyd yn gryf o hyd, ond mae angen ewyllys da gan adrannau ar gyfer prynu ar y cyd;
- roedd cynllun Swyddfa'r Cabinet i greu'r CCS wedi synied yn anghywir am y gweithgareddau a faint o nwyddau, gwasanaethau a gwaith a fyddai'n briodol i'w prynu'n ganolog; a
- erbyn 2016, dim ond saith adran oedd wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb am brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith cyffredin i'r CCS, gwerth £2.5 biliwn a llawer llai na'r £13.4 biliwn oedd wedi'i ragweld.

Atodiad 2 – Y defnydd o fframweithiau GCC yn 2015-16 a 2016-17

Dengys **Ffigwr 8** y ganran o'r 73 sefydliad sy'n aelodau o GCC a ddefnyddiodd ei fframweithiau byw yn 2015-16 a 2016-17, gan gynnwys fframweithiau a etifeddodd GCC gan gyrff cyhoeddus eraill, yn cynnwys Consortïwm Prynu Cymru (CPC) (**para 1.13**).

Mewn rhai achosion, sefydlwyd y fframweithiau heb unrhyw wariant yn 2015-16 yn hwyr yn y flwyddyn, neu ddim tan 2016-17. Nid yw GCC wedi gallu penderfynu a oedd hyn oherwydd na dderbyniodd wybodaeth reoli gan gyflenwyr neu oherwydd na ddefnyddiwyd y fframweithiau hyn. Mae GCC yn gweithio i ddatrys hyn (**paragraff 1.11**). Yn yr un modd, nid oedd rhai o'r fframweithiau a sefydlwyd yn 2016-17 yn fyw tan yn gymharol hwyr yn y flwyddyn. I bwrpas yr adroddiad hwn, rydym yn trin data gwariant 2016-17 fel data dangosol yn unig ar hyn o bryd. Mewn rhai achosion gall y galw amrywio oherwydd bod gan gyrff cyhoeddus eu gwasanaethau mewnol eu hunain.

Dengys **Ffigwr 8** y gwariant cyffredinol drwy bob fframwaith GCC byw yn 2016-17, ynghyd â faint o gyrff sy'n aelodau, a chyrrff nad ydynt yn aelodau, a ddefnyddiodd hwynt a'r amrywiadau mewn gwariant yn ôl sefydliadau.

Ffigwr 7: canran o aelodau GCC a ddefnyddiodd y fframweithiau yn 2015-16 a 2016-17¹

Fframwaith	2015-16 (%)	2016-17 (%)	Dyddiad y sefydlwyd y fframwaith
Defnyddiau Traul Argraffu III ²	93	82	Fframwaith etifeddol a sefydlwyd cyn creu GCC
Plymio Systemau Gwresogi Trydanol a Deunyddiau Cysylltiedig	8	74	Medi 2015
Cynhyrchion a Gwasanaethau TG	56	72	Ionawr 2016
Llogi Cerbydau	39	72	Ebrill 2015
Cytundeb Fframwaith Cymru Gyfan GCC ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol gan Gyfreithwyr	33	69	Medi 2015
Gwasanaethau Argraffu Cymru Gyfan	9	65	Ionawr 2016
Iechyd Galwedigaethol a Gwasanaethau Cysylltiedig	28	61	Ebrill 2015
Deunyddiau Adeiladu Cyffredinol	49	60	Chwefror 2015

Fframwaith	2015-16 (%)	2016-17 (%)	Dyddiad y sefydlwyd y fframwaith
Darparu Atebion Dodrefn	66	58	Mai 2015
Cyflenwi Papur a Nwyddau Swyddfa	32	56	Ionawr 2015
Cytundeb Pontio GCC ar gyfer Papur a Nwyddau Swyddfa	31	53	Gorffennaf 2015
Cytundeb Fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Asiantaethau Cyfryngau	29	51	Fframwaith etifeddol a sefydlwyd cyn creu GCC
Ymgynghoriaeth Adeiladu (Eiddo)	27	51	Rhagfyr 2014
Fframwaith Cyfieithu Cymru	9	49	Mehefin 2014
Gwasanaeth Gweithwyr Asiantaeth a Reolir gan GCC	44	47	Ebrill 2015
Cyflenwi Tanwyddau Hylif	32	46	Ebrill 2015
Deunyddiau Glanhau a Phorthorol	2	46	Medi 2015
Gwasanaeth a Reolir ar gyfer Cynlluniau Buddiannau Gweithwyr	0	46	Rhagfyr 2015
Ymgynghoriaeth Adeiladu Cam 2	13	44	Hydref 2015
Teithio a Llety ar gyfer Busnes	7	44	Hydref 2015
Nwy a Thrydan	29	43	Fframwaith Nwy Ebrill 2016 Fframwaith Trydan Ebrill 2017 ⁴
Cardiau Tanwydd	2	42	Medi 2015
GCC – Cyflenwi Prydau Rhewedig ar Blât, Prydau wedi'u Llyfnhau, Cawl a Bwydydd Ar yr Ochr	Amherthnasol	42	Tachwedd 2016
Nwyddau Swyddfa a Phapur Llungopïo GCC	Amherthnasol	42	Ionawr 2017
Gwasanaethau Post a Chludo a Chyfarpar Ystafell Bost	Amherthnasol	39	Gorffennaf 2016
Gwasanaethau Mân Seilwaith Adeiladau	Amherthnasol	38	Awst 2016

Fframwaith	2015-16 (%)	2016-17 (%)	Dyddiad y sefydlwyd y fframwaith
Bagiau Gwaredu Gwastraff	Amherthnasol	38	Awst 2016
Brechdanau Parod a Llenwadau Brechdanau	Amherthnasol	36	Tachwedd 2016
Gwasanaethau Dysgu, Datblygu a Hyfforddiant Corfforaethol	Amherthnasol	36	Medi 2016
Ymgynghoriaeth Adeiladu Cam 3	1	35	Ionawr 2016
Gwasanaethau Glanhau a Phorthorol	1	35	Mehefin 2015
Gofal Cymdeithasol – Technoleg Gynorthwyol	0	35	Hydref 2015
Effeithlonrwydd Adnoddau Cymru ³	1	33	Gorffennaf 2014
Gwasanaethau Casglu Arian Parod	1	33	Medi 2015
Teiars a Gwasanaethau Cysylltiedig a Chyflenwi	0	33	Tachwedd 2015
Offer llaw a chyfarpar trydanol bach	Amherthnasol	33	Medi 2016
Halen Craig GCC	8	32	Hydref 2015
Bagiau Gwastraff Clinigol	Amherthnasol	32	Chwefror 2017
Gwasanaethau Cymorth Yswiriant	Amherthnasol	32	Medi 2016
Darnau Sbâr Cerbydau	Amherthnasol	32	Ionawr 2017
Gwasanaethau Sicrwydd Gwybodaeth	Amherthnasol	32	Tachwedd 2016
Gwasanaeth Gweithwyr Asiantaeth a Reolir gan Gonsortiw Prynu Cymru ²	39	31	Fframwaith etifeddol a sefydlwyd cyn creu GCC
Systemau Rheoli Llyfrgelloedd	0	31	Medi 2015
Rheoli Cyfleusterau Cam 1	0	1	Ionawr 2016
Cyfarpar Cymunedol ²	29	0	Fframwaith etifeddol a sefydlwyd cyn creu GCC
Cyflenwi Tanwyddau Biomas	0	0	Ionawr 2016
Teleffoni Symudol ²	0	0	Gorffennaf 2015

Fframwaith	2015-16 (%)	2016-17 (%)	Dyddiad y sefydlwyd y fframwaith
Rheoli Cyfleusterau Cam 2	Amherthnasol	0	Hydref 2016
Digideiddio, Storio a Gwaredu	Amherthnasol	0	Ionawr 2017
Cyflenwi Dyfeisiau Amldefnydd (MFD) a Gwasanaethau Cysylltiedig	Amherthnasol	0	Ionawr 2017
Gwasanaethau Yswiriant	Amherthnasol	0	Gorffennaf 2016
Fframwaith Gwasanaethau Rhwydwaith ²	0	0	Chwefror 2016
Cyflenwi Dillad Diogelwch a Chyfarpar Diogelwch Personol	31	0	Fframwaith etifeddol a sefydlwyd cyn creu GCC
Cyfarpar TG a Gwasanaethau Cysylltiedig III ²	69	Amherthnasol	Fframwaith etifeddol a sefydlwyd cyn creu GCC
Cyflenwi, gwasanaethu a chynnal a chadw Cyfarpar Tân ¹	0	Amherthnasol	Fframwaith etifeddol a sefydlwyd cyn creu GCC
Halen Craig ²	8	Amherthnasol	Fframwaith etifeddol a sefydlwyd cyn creu GCC

Nodiadau:

- 1 Mae Amherthnasol yn ymwneud â fframweithiau nad oedd ar gael yn y cyfnod dan sylw.
- 2 Fframwaith ddim yn fyw mwyach.
- 3 Mae fframwaith 'Effeithlonrwydd Adnoddau Cymru' yn darparu gwasanaethau'n ymwneud â rhoi cyngor ar arbed ynni a gwasanaeth ymgynghori amgylcheddol.
- 4 Mae'r dyddiadau hyn yn ymwneud â'r trefniadau contract presennol. Mae GCC wedi bod yn rheoli caffael nwy a thrydan ar ran rai o aelodau GCC ers mis Hydref 2015 (Blwch 5 ar dudalen 23).

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata GCC

Ffigwr 8: holl wariant, amrywiadau gwariant a defnydd o fframweithiau GCC yn 2016-17

Fframwaith	Cyfanswm gwariant	Nifer y sefydliadau'n defnyddio'r fframwaith (aelodau a heb fod yn aelodau)	Gwariant uchaf yn ôl sefydliad	Gwariant isaf yn ôl sefydliad
Nwy a Thrydan	£68,332,715	31	£8,115,904	£1,748
Gwasanaeth Gweithwyr Asiantaeth a Reolir gan GCC	£50,018,222	37	£13,875,992	£735
Cynhyrchion a Gwasanaethau TG	£37,439,394	63	£2,911,301	£87
Cyflenwi Tanwyddau Hylif	£17,751,779	32	£1,843,150	£467
Plymio Systemau Gwresogi Trydanol a Deunyddiau Cysylltiedig	£5,678,050	59	£2,925,029	£11
Cytundeb Fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Asiantaethau Cyfryngau	£5,099,932	35	£3,935,802	£272
Deunyddiau Adeiladu Cyffredinol	£4,691,961	45	£1,840,218	£9
Ymgynghoriaeth Adeiladu Cam 2	£4,380,757	27	£1,451,662	£915
Defnyddiau Traul Argraffu III	£3,315,075	75	£335,031	£234
Ymgynghoriaeth Adeiladu (Eiddo)	£3,258,915	29	£1,446,045	£940
Llogi Cerbydau	£2,929,782	57	£539,865	£50
Darparu Atebion Dodrefn	£2,608,422	44	£369,316	£924
Gwasanaeth a Reolir ar gyfer Cynlluniau Buddiannau Gweithwyr	£2,497,839	19	£895,122	£4,277

Fframwaith	Cyfanswm gwariant	Nifer y sefydliadau'n defnyddio'r fframwaith (aelodau a heb fod yn aelodau)	Gwariant uchaf yn ôl sefydliad	Gwariant isaf yn ôl sefydliad
Cytundeb Fframwaith Cymru Gyfan GCC ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol gan Gyfreithwyr	£2,378,411	59	£724,061	£941
Halen Craig GCC	£2,165,796	17	£529,705	£1,935
Fframwaith Gwasanaethau Argraffu Cymru Gyfan	£2,053,774	54	£586,137	£122
Effeithlonrwydd Adnoddau Cymru	£1,995,637	8	£1,899,580	£1,100
Cardiau Tanwydd	£1,955,565	17	£610,506	£6,683
Rheoli Cyfleusterau Cam 1	£1,812,741	2	£1,804,123	£8,618
Gofal Cymdeithasol – Technoleg Gynorthwyol	£1,739,555	31	£236,966	£7
Teiars a Gwasanaethau Cysylltiedig	£1,723,578	18	£268,933	£3,201
Gwasanaeth Gweithwyr Asiantaeth a Reolir gan CPC	£1,245,682	7	£406,004	£79,762
Cyflenwi Papur a Nwyddau Swyddfa	£1,160,731	38	£167,627	£4
Cytundeb Fframwaith Consortiwm Prynu Cymru i Gyflenwi Cig Wedi'i Goginio a Rhewedig Ffres	£927,789	12	£177,871	£1,788
Deunyddiau Glanhau a Phorthorol	£893,487	27	£278,199	£4
Iechyd Galwedigaethol a Gwasanaethau Cysylltiedig	£872,466	40	£124,323	£4

Fframwaith	Cyfanswm gwariant	Nifer y sefydliadau'n defnyddio'r fframwaith (aelodau a heb fod yn aelodau)	Gwariant uchaf yn ôl sefydliad	Gwariant isaf yn ôl sefydliad
Cytundeb Pontio GCC ar gyfer Papur a Nwyddau Swyddfa	£871,867	34	£108,306	£30
Teithio a Llety ar gyfer Busnes	£754,784	19	£405,289	£143
GCC – Cyflenwi Prydau Rhewedig ar Blât, Prydau wedi'u Llyfnhau, Cawl a Bwydydd Ar yr Ochr	£544,587	12	£180,523	£437
Fframwaith Cyfieithu Cymru	£514,770	28	£299,615	£116
Darnau Sbâr Cerbydau	£482,205	6	£200,596	£8,162
Ymgynghoriaeth Adeiladu Cam 3	£436,874	11	£155,573	£2,106
Cyflenwi Bagiau Gwaredu Gwastraff	£345,371	14	£98,768	£274
GCC - Gwasanaethau Mân Seilwaith Adeiladau	£199,796	10	£69,649	£1,101
Systemau Rheoli Llyfrgelloedd	£196,872	9	£156,931	£2,599
Gwasanaethau Glanhau a Phorthorol	£140,714	5	£86,704	£4,345
Gwasanaethau Casglu Arian Parod	£140,454	6	£41,202	£3,537
GCC – Cyflenwi a Dosbarthu Brechdanau Parod a Llenwadau Brechdanau	£121,317	6	£62,526	£683
Nwyddau Swyddfa a Phapur Llungopïo GCC	£115,747	16	£37,475	£92

Fframwaith	Cyfanswm gwariant	Nifer y sefydliadau'n defnyddio'r fframwaith (aelodau a heb fod yn aelodau)	Gwariant uchaf yn ôl sefydliad	Gwariant isaf yn ôl sefydliad
Fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Post, Cludo a Chyfarpar Ystafell Bost	£100,689	9	£30,077	£3,048
Cyflenwi Bagiau Gwastraff Clinigol	£80,016	1	£80,016	£80,016
Gwasanaethau Sicrwydd Gwybodaeth	£43,573	6	£11,238	£3,513
Gwasanaethau Dysgu, Datblygu a Hyfforddiant Corfforaethol	£29,530	10	£12,445	£300
Prynu Offer Llaw a Chyfarpar Trydanol Bach	£17,954	18	£4,040	£54
Gwasanaethau Cymorth Yswiriant	£10,536	2	£8,636	£1,900

Dalier sylw:

Roedd wyth fframwaith oedd yn fyw yn 2016-17 ond na chofnododd unrhyw wariant ar gyfer aelodau a rhai heb fod yn aelodau.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata GCC

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru